

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân
Domestig (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Tachwedd 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8065
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân
Domestig (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Tachwedd 2010



Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Sefydlwyd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried a chyhoeddi adroddiadau ar ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad yn bennaf gan Aelodau Cynulliad unigol, pwyllgorau a Chomisiwn y Cynulliad. Mae modd i'r Pwyllgor ystyried a chyhoeddi adroddiadau ar ddeddfwriaeth y Llywodraeth hefyd, pan fydd galw.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Tachwedd 2008 fel un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn benodol yn Rheolau Sefydlog 10, 22 a 23. Mae'r rhain i'w gweld yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r Pwyllgor

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Rosemary Butler (Cadeirydd)	Llafur	Gorllewin Casnewydd
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gogledd Cymru
Chris Franks	Plaid Cymru	Canol De Cymru
Ann Jones *	Llafur	Dyffryn Clwyd
Val Lloyd	Llafur	Dwyrain Abertawe
Rhodri Morgan	Llafur	Gorllewin Caerdydd
Nick Ramsay	Plaid Geidwadol Cymru	Mynwy

*Fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), nid oedd Ann Jones AC yn bresennol yn y cyfarfodydd lle trafodwyd Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru). Bu Rhodri Morgan AC o'r Blaid Lafur, yn dirprwyo'n barhaol wrth i'r Pwyllgor ystyried y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 1.

Cynnwys

Casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cyflwyniad	
Cefndir	8
2. Cefndir	
Fframwaith deddfwriaethol	10
3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	
Trosolwg	11
Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009	12
Trefniadau presennol mewn perthynas â diogelwch tân yn y cartref...	14
Nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn cartrefi newydd	17
Ffyrdd eraill o leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn cartrefi	18
Dadansoddiad cost a budd presennol	20
4. Goblygiadau ymarferol	
Cefndir	27
5. Goblygiadau ariannol	
Costau gosod	34
Y posibilrwydd i ddatblygwyr wrthbwysu costau	37
Gwerth y tŷ	38
Gwerth tir	39
6. Sylwadau penodol ar adrannau o'r Mesur arfaethedig	
Adran 1 – Dyletswydd i ddarparu systemau llethu tân awtomatig	41
Hyd a lled y ddyletswydd	41
Cynnal a chadw	44
Adran 2 – Gorfodi	49
Adran 3 – Darparu Gwybodaeth	52

Adran 4 - Dehongli.....	53
Adran 6 - Rheoliadau a gorchmynion	55
7. Materion eraill	
Effaith gronnus rheoleiddio.....	57
Effaith bosibl ar yr agenda tai fforddiadwy	59
8. Adroddiadau gan Bwyllgorau eraill	
Is-ddeddfwriaeth.....	61
Materion ariannol / adnoddau.....	61
Rhestr o'r tystion	62
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	63

Casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r paragraffau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd:

Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am deddfwriaeth

Rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.
[Paragraff 65]

O ystyried hyn, rydym yn fodlon bod y Mesur arfaethedig yn gyfrwng deddfwriaethol priodol ac yn darparu ffordd ymlaen sy'n effeithiol ac yn amserol. [Paragraff 71]

Rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. [Paragraff 72]

Goblygiadau ymarferol

Rydym yn parhau'n bryderus nad yw'r goblygiadau ymarferol o ran darparu a chynnal a chadw cyflenwad dŵr heb eu datrys eto. Rydym yn nodi bwriad y Gweinidog i wneud mwy o waith cyn gwneud rheoliadau er mwyn rhoi effaith i fwriad polisi'r Mesur arfaethedig. Fel rhan o hyn, rydym yn ei hannog i archwilio'r goblygiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â dyletswydd adran 1 i ddarparu systemau llethu, gan ystyried y dystiolaeth a gawsom mewn cysylltiad â hyn. [Paragraff 99]

Rydym yn credu ei bod yn debygol y bydd y costau gosod ar gyfer y diwydiant adeiladu cartrefi a'r sector tai cymdeithasol yn uwch na'r amcangyfrif a nodir yn y Memorandwm Esboniadol. [Paragraff 125]

Rydym yn nodi bwriad y Gweinidog i wneud mwy o waith cyn gwneud rheoliadau a fydd yn gweithredu bwriad polisi'r Mesur arfaethedig. Fel rhan o hyn, rydym yn ei hannog i ailedrych ar y goblygiadau cost sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig, gan ystyried y dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â hyn. [Paragraff 128]

Adran 1- Dyletswydd i ddarparu systemau llethu tân awtomatig

Rydym yn nodi nad yw cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn ymestyn i ddarparu systemau llethu tân awtomatig yn y stoc dai bresennol. Rydym yn cydnabod, felly, bod y ddyletswydd i ddarparu systemau llethu tân wedi'i chyfyngu i breswylfeydd newydd, ac rydym yn

fodlon bod y dull hwn o weithredu yn gymesur ac yn ymarferol.
[Paragraff 140]

Rydym yn derbyn ei bod yn briodol bod y gofynion y mae'n rhaid i systemau llethu tân awtomatig gydymffurfio â hwy yn fater i Weinidogion Cymru i'w rhagnodi drwy reoliadau, fel y nodir yn adran 1(4)(c). Fodd bynnag, gan na fydd bwriad polisi'r Mesur arfaethedig yn dod i rym nes y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gwneud, rydym yn annog y Gweinidog i ystyried ymhellach y materion a amlinellir yn ei thystiolaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol, gyda'r bwriad o gyflwyno rheoliadau unwaith i'r gwaith hwn gael ei gwblhau. [Paragraff 142]

Rydym yn credu, felly, ei bod yn rhesymol bod unrhyw ofyniad am waith cynnal a chadw parhaus yn cael ei wneud drwy gyfeirio at y Safon Brydeinig ar gyfer systemau llethu tân, fel sy'n wir ar hyn o bryd. O ystyried hyn, rydym yn fodlon nad yw'r Mesur arfaethedig yn cynnwys dim darpariaeth ar gyfer y gwaith parhaus o gynnal a chadw systemau llethu tân. [Paragraff 163]

Rydym yn annog y Gweinidog i ailedrych ar oblygiadau cost sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig, gan ystyried y dystiolaeth a gawsom.
[Paragraff 164]

Adran 2 – Gorfodi

Rydym yn argymhell, felly, bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r mater hwn, fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog yn ei thystiolaeth. [Paragraff 173]

Adran 3 – Darparu Gwybodaeth

Rydym yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2 i wneud yn glir mai ei bwriad yw bod adran 3 yr un mor berthnasol i wasanaethau Rheoli Adeiladu mewn awdurdodau lleol a Rheoli Adeiladu a wneir gan Arolygwyr Cymeradwy yn y sector breifat. Rydym hefyd yn argymhell bod y graddfeydd amser ar gyfer diffyg cydymffurfio a ddarperir ar eu cyfer yn adran 3 yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd yn achos Rheoliadau Adeiladu 2000.
[Paragraff 179]

Adran 4 – Dehongli

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig, fel y'i drafftwyd, yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru i ddiwygio diffiniad

'preswylfa' drwy Orchymyn os bydd angen. Rydym yn fodlon, felly, ar y diffiniad o 'preswylfa' a ddarperir ar ei gyfer yn adran 4. [Paragraff 188]

Rydym yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ystyried newid y teitl byr i gynnwys cyfeiriad at systemau llethu tân awtomatig, er eglurder. [Paragraff 189]

Adran 6 – Rheoliadau a gorchmynion

Gan hynny, rydym yn fodlon â gofyniad i ymgynghori a ddarperir yn adran 6(1)(d). [Paragraff 193]

Effaith gronnus rheoleiddio

Wrth ystyried effaith y Mesur arfaethedig ar sail yr amcangyfrifon cost a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol, rydym yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y Mesur arfaethedig yn cael effaith andwyol ar hyfywedd datblygu yng Nghymru. [Paragraff 203]

Rydym yn credu y byddai'n ddoeth i'r Gweinidog roi ystyriaeth. [Paragraff 203]

Effaith bosibl ar yr agenda tai fforddiadwy

Rydym yn fodlon ei bod yn annhebygol y bydd y Mesur arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y gallu i gyflawni'r agenda tai fforddiadwy yng Nghymru. [Paragraff 210]

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. Ar 8 Gorffennaf 2010, gosodwyd Mesur arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)¹ ('y Mesur arfaethedig) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad gan Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol.²
2. Yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2010, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ('y Pwyllgor') er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 23.21.³ Cytunodd y Pwyllgor Busnes bod yn rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig erbyn 12 Tachwedd 2010.⁴

Natur y gwaith craffu

3. Yn ein cyfarfod at 14 Gorffennaf 2010, cytunwyd ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar y Mesur arfaethedig:

Ystyried -

- (i) yr angen am Fesur arfaethedig i gyflwyno gofyniad i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd yng Nghymru;
- (ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni ei nod, sef lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn mangreoedd preswyl newydd yng Nghymru;
- (iii) y prif ddarpariaethau a nodir yn y Mesur arfaethedig ac a ydynt yn addas ar gyfer cyflawni ei nod;
- (iv) goblygiadau ymarferol ac ariannol y Mesur arfaethedig; a

¹ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), MPM-2-S1

² Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1

³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Busnes, BC(3)21-10: Cofnodion, 6 Gorffennaf 2010

⁴ Ibid.

- (v) barn y rhanddeiliaid y bydd yn rhaid iddynt weithio o fewn y trefniadau newydd.⁵

Dull y Pwyllgor o weithio

4. Cyhoeddwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth gennym, a gwahoddwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan bartïon â diddordeb er mwyn i hynny fod yn sail i'n gwaith. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

5. Clywsom hefyd dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae rhestr o'r tystion hyn hefyd i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

6. Yn yr adroddiad a'r argymhellion isod, nodir y casgliadau y daethom atynt yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law wrth i ni fwrw ati gyda'n gwaith. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hadroddiad.

⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, LC1(3)08-10: Cofnodion

2. Cefndir

Fframwaith deddfwriaethol

7. Mae'r pŵer sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud y Mesur arfaethedig i'w gael ym Mater 11.1 o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Matter 11.1

The provision of automatic fire suppression systems in new residential premises.

In this matter "new residential premises" means—

- (a) premises newly constructed for residential use;*
- (b) premises newly converted to residential use;*
- (c) premises converted to use as one or more new residences by subdivision of one or more existing residences; and*
- (d) premises converted to use as one or more new residences by amalgamation of one or more existing residences.*

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn nodi:

"Prif ddiben y Mesur arfaethedig yw cyflwyno gofyniad ar gyfer darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoddedd preswyl newydd yng Nghymru."⁶

9. Mae hefyd yn nodi mai nod y Mesur arfaethedig yw 'lleihau achosion o farwolaethau ac anafiadau o danau mewn preswylfeydd a adeilidir o'r newydd yng Nghymru.'⁷

⁶ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1, para 1.2

⁷ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1, para 3.7

3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Trosolwg

10. Wrth ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, ceisiwyd darganfod a oes angen pendant ac amlwg ar gyfer y ddeddfwriaeth sydd ger ein bron. Wrth wneud hynny, buom yn edrych ar bwerau Gweinidogion Cymru (sydd i'w trosglwyddo gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Gweinidogion Cymru (Rhif 2) 2009); trefniadau presennol mewn perthynas â diogelwch tân yn y cartref; nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn cartrefi newydd; ffyrdd eraill o leihau nifer y marwolaethau o ganlyniad i danau yn y cartref; a'r dadansoddiad cost a budd presennol.

11. Ystyriwyd gennym hefyd oblygiadau ymarferol ac ariannol y Mesur arfaethedig, ac ystyriwyd yn fras ei effaith bosibl ar dai yng Nghymru.

12. O'r 27 a ymatebodd, roedd 8 yn cefnogi egwyddorion gyffredinol y Mesur arfaethedig heb amheuaeth, am y rhesymau a ganlyn. Byddai'r Mesur arfaethedig yn:

- helpu i leihau neu, o bosibl, ddileu marwolaethau o ganlyniad i danau yng Nghymru;
- helpu i leihau anafiadau o ganlyniad i danau yng Nghymru;
- gwella diogelwch diffoddwyr tân;
- darparu mwy o ddiogelwch yn erbyn effeithiau tân, sydd mawr ei angen, yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed;
- cefnogi cynaliadwyedd yn y cartref ac yn y gymuned;
- cefnogi polisiau ac arferion amgylcheddol Llywodraeth Cymru; ac
- arwain at arbedion economaidd sylweddol.

13. Yn ogystal, esboniodd cynrychiolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Rhwydwaith Taenellwyr Tân Cenedlaethol (NFSN) bod yr arfer o osod systemau llethu tân awtomatig ar sail orfodol wedi'i hen sefydlu mewn rhannau eraill o'r byd, a'i fod yn profi'n effeithiol.

14. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eraill naill ai'n croesawu nod y Mesur neu ddim yn ei wrthwynebu'n uniongyrchol, roeddent yn pryderu nad oedd y dystiolaeth a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol yn dangos yn bendant yr angen am y deddfwriaeth. Codwyd pryderon penodol mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Ni roddwyd digon o ystyriaeth i effeithiolrwydd deddfwriaeth bresennol mewn perthynas â diogelwch tân mewn cartrefi newydd;
- Diffyg data ystadegol ynghylch nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn cartrefi newydd;
- Gellid bodloni nod y Mesur arfaethedig mewn ffordd wahanol, e.e. drwy ganolbwyntio ymdrechion ar wella diogelwch tân yn y stoc dai bresennol;
- Nid yw'r rhwystrau ymarferol i weithredu'r Mesur arfaethedig wedi cael eu gwerthfawrogi'n llawn;
- Mae'r gost o fodloni gofynion y Mesur arfaethedig wedi'i amcangyfrif yn rhy isel; ac
- Mae angen ystyriaeth bellach o effaith bosibl y Mesur arfaethedig ar yr economi ehangach.

15. Wrth i ni ystyried a allwn gefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, trafodwyd nifer o brif faterion. Manylir arnynt isod.

Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009

Cefndir

16. Bydd swyddogaethau o ran gwneud a diwygio'r rheoliadau adeiladu yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 ('y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau'), a fydd yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2011. Bydd hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gryfhau'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas â diogelwch tân.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

17. Yn ei thystiolaeth, cadarnhaodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai y byddai'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn rhoi'r pŵer sydd ei angen ar Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod systemau llethu tân awtomatig yn cael eu gosod mewn preswylfeydd a adeiledir o'r newydd.⁸ Er gwaethaf hyn, cydnabu bod y broses o gael cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â diogelwch tân domestig wedi bod yn hir ac yn gymhleth.⁹ Cydnabu hefyd na fyddai'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn dod i rym am beth amser. O ystyried hyn, roedd y Gweinidog yn fodlon bod y Mesur arfaethedig yn mynd rhagddo.¹⁰

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

18. Wrth bwysleisio'r angen am y Mesur arfaethedig, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“The reason that I am trying to take this proposed Measure through is because it will become an Assembly Measure, so the Assembly will have control over it.”¹¹

19. Esboniodd bod y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn cynnwys 'sunrise clause'¹² a fyddai'n rhwystro Gweinidogion Cymru rhag diwygio'r Rheoliadau Adeiladu am gryn amser, ac eithrio mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni.¹³

20. Aeth yr Aelod sy'n gyfrifol ymlaen i awgrymu y byddai'r Mesur arfaethedig yn gweithredu ochr yn ochr â'r Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas â diogelwch tân, ac yn eu hategu.¹⁴

⁸ Y Cofnod, para 165, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

⁹ Ibid.

¹⁰ Ibid.

¹¹ Y Cofnod, para 10, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹² Mae 'sunrise clause' yn gwahardd cymal statudol rhag dod i rym tan ddyddiad diweddarach

¹³ Y Cofnod, para 10, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹⁴ Y Cofnod, para 10, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010 a'r Cofnod, para 7, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

Trefniadau presennol mewn perthynas â diogelwch tân yn y cartref

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

21. Cawsom dystiolaeth, yn bennaf gan y diwydiant adeiladu tai, sy'n awgrymu bod gan dai newydd fesurau diogelwch tân sy'n fwy trwyadl na stoc tai hŷn a'u bod, fel y cyfryw, yn llai tebygol o fod yn gysylltiedig â marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau. Nododd nifer o ymatebwyr bod rheoliadau adeiladu'n gofyn bod gan bob tŷ a adeiledir o'r newydd ganfodyddion mwg gwifredig. Mae'r gofyniad hwn wedi bod ar waith ers 1992.

22. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi (HBF) bod ei aelodau'n fodlon bod darpariaethau yn y Rheoliadau Adeiladu yn gadarn o ran atal tân yn effeithiol mewn cartrefi newydd.¹⁵

23. Aeth y Ffederasiwn ymlaen i nodi:

“...discussions with industry experts also suggest that new homes are far safer from the risks of fire compared to the existing stock and we believe that the instances of deaths and injuries from newly built homes across Wales are much lower when compared to those that occur within older stock, particularly in homes built after 1992 when hard wired smoke detectors became mandatory.”¹⁶

24. Rhannwyd y farn hon gan Llanmoor Homes ac Anwyl Construction Co Ltd,¹⁷ a gwnaethpwyd pwyntiau tebyg gan Bovis Homes Group PLC, Persimmon Homes West Wales a Redrow Homes Ltd.¹⁸

25. Yn gysylltiedig â'r uchod, nododd Bovis Homes Group PLC bryder nad oes archwiliad o effeithiolrwydd gofynion presennol (a ddarperir yn Rhan B o'r rheoliadau adeiladu) wedi cael ei wneud, a bod y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu bod y gofynion yn

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23

¹⁶ Ibid

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23a, DFS23b

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15, DFS18, DFS19

anefeithiol.¹⁹ Yn yr un modd, mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru yn awgrymu y byddai adolygiad o fesurau diogelwch yn y cartref presennol a'u heffeithlonrwydd yn cael ei groesawu'n fawr.²⁰

26. Cred y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC) y byddai'n fwy rhesymol aros am ganlyniad ystyriaeth Senedd y Du o'r Mesur Seneddol ynghylch Rheoliadau Adeiladu (Adolygu) a chanlyniad unrhyw waith dilynol, cyn symud ymlaen ymhellach â'r Mesur arfaethedig.²¹

27. Ar y llaw arall, esboniodd y Rhwydwaith Chwistrellau Tân Cenedlaethol (NFSN) bod data ystadegol diweddar wedi dangos bod nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau wedi lefelu yn y blynyddoedd diwethaf.²² Dadleuai'n gryf bod angen mwy o weithredu, ar ffurf y Mesur arfaethedig. Ar ben hynny, amlinellodd Cymdeithas Prif Swyddogion Tân Cymru (CFOA) fanteision systemau llethu tân awtomatig uwchben rhai canfodyddion mwg. Dywedodd:

“Whilst smoke alarms are essential in providing early warning from fire, they alone cannot ensure safe egress from the building. Sprinklers however, contain the fire within the room of origin and extinguish in most circumstances or check the fire development until the arrival of the fire and rescue service.”²³

28. Aeth CFOA Cymru ymlaen i ddadlau mai gosod systemau llethu tân awtomatig yw'r unig ffordd o atal marwolaethau o ganlyniad i danau ymhlith y grwpiau sydd fwyaf agored i niwed.²⁴

29. Cafwyd sylwadau tebyg gan y Rhwydwaith Chwistrellau Tân Cenedlaethol.²⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

30. Yn ei thystiolaeth, amlinellodd y Gweinidog fentrau diweddar Llywodraeth Cymru sy'n anelu at wella diogelwch tân yn y cartref ac mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen gwerth miliynau o

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS24

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS17

²² Y Cofnod, para 159, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS12.

²⁴ Ibid.

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS16

bunnoedd i sicrhau bod canfodyddion mwg gwifredig yn cael eu gosod ym mhob tŷ cymdeithasol; cyllid i gefnogi archwiliadau diogelwch tân yn y cartref; cyllid i gefnogi gwybodaeth am ddiogelwch tân; rhaglen i osod systemau taenellu mewn ysgolion “bregus”; a chyllid i ddarparu deunydd addysgol fel rhan o ymweliadau ysgol yr awdurdodau tân ac achub.²⁶

31. Wrth wneud sylwadau ar a yw Rheoliadau Adeiladu 2000 yn rhoi digon o ddiogelwch rhag tân yn y cartref, dywedodd y Gweinidog:

“The current Building Regulations were last reviewed in 2006, and the most current assessment of the case for sprinklers was the 2004 study [by the Building Research Establishment]. We are awaiting the result of the new [BRE] study as to whether the situation has changed, while retaining our support for the general principles.”²⁷

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

32. Er bod Rheoliadau Adeiladu 2000 yn gofyn bod canfodyddion mwg gwifredig yn cael eu gosod mewn cartrefi newydd, esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol yn ei thystiolaeth nad oes gofyniad statudol ar hyn o bryd i osod systemau llethu tân awtomatig, ac eithrio mewn adeiladau domestig newydd dros 30 metr o uchder.²⁸

33. Fel CFOA Cymru ac NFSN, amlinellodd fanteision systemau llethu tân awtomatig dros ganfodyddion mwg. Dywedodd:

“...smoke alarms just alert you to the fact that there is a fire, the difference being that sprinklers will extinguish a fire. So, if you have a smoke alarm, it activates when there is a fire in your premises. You have to remember that if you are able to get out—that is, if you are fully mobile—you can do so and call the fire service, and then wait while the fire takes hold, but at least you will not, hopefully, have been injured. A sprinkler, however, will

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

²⁷ Y Cofnod, para 161, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

²⁸ Y Cofnod, para 7-8, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

detect a fire, activate itself and douse the fire...it is also a safety mechanism for firefighters.”²⁹

Nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn cartrefi newydd

Tystiolaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

34. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Redrow Homes Ltd, Cartrefi Cymunedol Cymru, Bovis Homes Group PLC, Persimmon Homes Gorllewin Cymru, Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi, Llanmoor Homes ac Anwyl Construction Co Ltd, yn amau a ellid defnyddio'r data ystadegol a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol—sy'n ymwneud â marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân ym *mhob* annedd yng Nghymru—i gefnogi'r Mesur arfaethedig.³⁰

35. Dadleuai rhai bod angen gwneud mwy o waith i ganfod a yw marwolaethau ac anafiadau yn digwydd mewn cartrefi newydd, er mwyn penderfynu a fydd y Mesur arfaethedig yn llwyddiannus. Yn benodol, teimlwyd bod angen dadansoddi oedran a math o eiddo lle mae marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân yn digwydd, ac y gallai hyn gael ei ddefnyddio i gategoreiddio eiddo yn ôl risg.

36. Yn ei dystiolaeth, esboniodd CFOA Cymru fod 80 y cant o farwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau yn digwydd yn y cartref.³¹ Pan gafodd ei holi am nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n digwydd mewn tai newydd, esboniodd CFOA Cymru nad oedd y gwasanaeth tân ac achub yn casglu data ar oedran yr eiddo.³²

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

37. Fel CFOA Cymru, esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol nad yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn casglu data ar oedran a math o eiddo sy'n gysylltiedig â marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau.³³ Aeth

²⁹ Y Cofnod, para 7, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS19, DFS22, DFS15, DFS18, DFS23, DFS23a, DFS23b

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS12

³² Y Cofnod, para 105, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

³³ Y Cofnod, para 9, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

ymlaen i bwysleisio mai ymddygiad unigolion a'u ffordd o fyw sy'n achosi tanau, yn hytrach nag oedran yr adeiladau y maent yn byw ynddynt.³⁴

Ffyrdd eraill o leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn cartrefi

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

38. Roedd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn cwestiynu a yw'r Mesur arfaethedig yn targedu ymdrechion yn y maes cywir. Awgrymai cynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai y byddai chwilio am ffyrdd i wella diogelwch tân yn y stoc tai hŷn—e.e. drwy addysg gymunedol a hyrwyddo larymau mwg sy'n defnyddio batri—yn ddull mwy priodol a chost-ffeithiol o weithredu i leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau. Mae hyn yn seiliedig ar y gred bod y risg o dân mewn cartrefi newydd yn llai na'r risg yn y stoc dai hŷn.

39. Tynnwyd sylw gan Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi at effeithiolrwydd canfodyddion mwg fel mesur diogelwch tân ac awgrymodd y dylid gwneud mwy o waith i ymchwilio i'r posibilrwydd o ofyn bod canfodyddion mwg yn cael eu gosod mewn cartrefi presennol yng Nghymru nad ydynt yn elwa ohonynt ar hyn o bryd.³⁵ Rhannwyd y farn hon gan Llanmoor Homes ac Anwyl Construction Co Ltd.³⁶

40. Er bod Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig Cymru yn cefnogi egwyddor gyffredinol y Mesur arfaethedig, credai hefyd bod angen adolygu diogelwch yn y cartref i hyrwyddo a chefnogi gwella ein stoc dai bresennol.³⁷

41. Dadleuai CFOA Cymru yn gryf y byddai targedu'r stoc dai bresennol yn unig yn canolbwyntio ar y mater anghywir.³⁸ Cydnabu CFOA Cymru bod tai hŷn yn cynnig heriau arbennig, ond aeth ymlaen i esbonio mai'r bobl sy'n byw yn yr adeilad a'u ffordd o fyw sy'n achosi tanau.³⁹ Cafwyd sylwadau tebyg gan NFSN.⁴⁰

³⁴ Y Cofnod, para 10, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23a, DFS23b

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS24

³⁸ Y Cofnod, para 21, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

³⁹ Ibid.

⁴⁰ Ibid.

42. Awgrym arall ar gyfer gwella diogelwch tân yn y stoc dai bresennol oedd defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i dargedu'r grwpiau economaidd-gymdeithasol hynny mewn mwy o berygl o dân na'r boblogaeth gyffredin.

43. Er gwaethaf ei gefnogaeth i'r Mesur arfaethedig, dywedodd Atal Tân Cymru:

“We know that the risk of fire is not evenly distributed throughout Wales and that some people are more vulnerable to a fire in their home due to their circumstances, conditions or behaviours. Ideally we would suggest that the installation of automated suppression systems (as well as other fire safety measures) be targeted according to these known risk factors.”⁴¹

44. Nododd Redrow Homes Ltd mai'r grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed yn gymdeithasol oedd leiaf tebygol o brynu tai newydd o'r farchnad tai preifat.⁴² Aeth ymlaen i awgrymu:

“a more targeted approach based on more defined statistics may be necessary to achieve the stated aims of the Measure.”⁴³

Mynegwyd barn debyg gan Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi, Llanmoor Homes ac Anwyl Construction Co Ltd.⁴⁴

45. Yn ei dystiolaeth, dywedodd CFOA Cymru bod Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru eisoes yn cynnal ei weithgareddau diogelwch tân mewn modd sy'n gysylltiedig â risg.⁴⁵ Bydd yn parhau i dargedu grwpiau risg uchel drwy weithgareddau diogelwch yn y gymuned.⁴⁶

46. Yn yr un modd, nododd CFOA Cymru:

“We think that this twin-track approach of legislating for new properties and targeting our community fire safety activities at

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS13

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS19

⁴³ Ibid.

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23, DFS23a, DFS23b

⁴⁵ Y Cofnod, para 19, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

⁴⁶ Y Cofnod, para 30, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

vulnerable groups...means that the whole spectrum of fire safety in the home will be covered.”⁴⁷

47. Yn yr un modd, pwysleisiodd NFSN fod angen i’r Mesur arfaethedig symud ymlaen ochr yn ochr â gwaith parhaus y Gwasanaeth Tân ac Achub o wella diogelwch tân mewn tai presennol, sydd, i raddau helaeth, yn golygu targedu grwpiau economaidd-gymdeithasol perthnasol sydd mewn mwyaf o berygl.⁴⁸

Tystiolaeth gan yr Aelod sy’n gyfrifol

48. Wrth roi sylwadau ar yr awgrym y byddai chwilio am ffyrdd o wella’r stoc dai presennol yn ddull mwy effeithiol o leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau yn y cartref, pwysleisiodd yr Aelod sy’n gyfrifol y byddai hyn y cael ei wneud ochr yn ochr â’r Mesur arfaethedig.⁴⁹

49. Mewn perthynas â thargedu’r grwpiau economaidd-gymdeithasol hynny sydd mewn mwyaf o berygl o dân, dywedodd yr Aelod sy’n gyfrifol:

“If we target safety measures at everyone it will make it equal for everyone. A good proportion of the new build that I hope will come after we have passed this proposed Measure will be for registered social landlords...They accommodate those who are vulnerable and most at risk.”⁵⁰

50. Aeth yr Aelod sy’n gyfrifol ymlaen i esbonio bod nifer y marwolaethau o ganlyniad i dân wedi lefelu a bod angen dull diogelu ychwanegol i fynd i’r afael â hyn, sef y Mesur arfaethedig.⁵¹

Dadansoddiad cost a budd presennol

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad

51. Yn y dystiolaeth a roddwyd i adroddiad y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), *Effectiveness of Sprinklers in Residential Premises*—a ddarparodd wybodaeth ar gyfer yr adolygiad o Ran B o’r Rheoliadau Adeiladu yn 2004—ac yn adroddiad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (CLG) yn

⁴⁷ Y Cofnod, para 16, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

⁴⁸ Y Cofnod, para 209, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010

⁴⁹ Y Cofnod, para 43, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

⁵⁰ Y Cofnod, para 45, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

⁵¹ Y Cofnod, para 47, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

2010, *A Cost Benefit Analysis of Options to Reduce the Risk of Fire and Rescue in Areas of New Build Homes*, ceir cyfeiriad helaeth at y posibilrwydd o ddefnyddio systemau llethu tân awtomatig yn Thames Gateway.

52. Nododd cynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai, y Gymdeithas Diogelwch Tân Arbenigol (ASFP) a'r Gweinidog nad oedd adolygiad BRE nac adroddiad CLG yn cefnogi'r achos dros osod systemau llethu tân awtomatig ym mhob preswylfa a adeiledir o'r newydd.

53. Codwyd pryderon mewn tystiolaeth nad oedd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi ystyried canfyddiadau adroddiadau'r BRE a CLG wrth iddi lunio ei chynigion.

54. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi:

"It is clear from the [BRE and CLG reports] that the installation of fire sprinklers in all new homes would not be a cost effective course of action to take..."

[...]

"In light of this, despite the Explanatory Memorandum estimating what the proposal might cost in Wales, there is still no evidence that these assumed costs would outweigh the benefits of the proposed Measure if it were introduced...given the level of detail within the [BRE and CLG] reports, which has not been replicated for the proposed Measure, and the conclusions reached by the reports, we believe that a similar exercise must be undertaken for the current proposed Measure, in order to ensure the costs of the proposal do not outweigh the benefits."⁵²

55. Rhannwyd y farn hon gan Llanmoor Homes ac Anwyl Construction Co Ltd.⁵³

56. Wrth roi sylwadau ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gan BRE yn 2004, dywedodd NFSN ei fod wedi methu ag ystyried rhywfaint o ddata pwysig

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23a, DFS23b

a'i fod yn dibynnu'r drwm ar ddata hen iawn⁵⁴. Aeth ymlaen i esbonio bod NFSN, CFOA ac eraill, o ganlyniad, wedi comisiynu ail adolygiad, a oedd yn fwy cynhwysfawr a chyfredol. Byddai'r adolygiad yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys tystiolaeth o'r Unol Daleithiau, data demograffig, a datblygiadau mewn deunyddiau adeiladu a dulliau adeiladu.⁵⁵ Dywedodd NFSN ei fod yn hyderus y bydd canfyddiadau'r adolygiad yn fwy ffafriol nag adroddiad 2004 ac y bydd yn barnu bod taenellwyr yn gost-effeithiol.⁵⁶ Gwnaeth CFOA Cymru sylwadau tebyg.⁵⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

57. Er gwaethaf cefnogaeth y Gweinidog i egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, pwysleisiodd bod yr achos dros gael gofyniad bod systemau llethu tân yn cael eu gosod mewn llety preswyl a adeiladir ac a drosir o'r newydd eto i'w wneud.⁵⁸ Tynnodd sylw at nifer o wendidau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol; credai nad yw ar hyn o bryd yn darparu sail ar gyfer barnu costau a buddion tebygol y Mesur arfaethedig.⁵⁹

58. Os bydd y Mesur arfaethedig yn cael ei basio gan y Cynulliad, pwysleisiodd y Gweinidog y byddai angen ystyriaeth bellach o'r wybodaeth sydd ar gael ar y costau a'r buddion fel rhan o gynigion yn y dyfodol i gyflwyno rheoliadau i weithredu bwriad y Mesur.⁶⁰ Adroddodd hefyd bod BRE ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r adroddiad a gyhoeddodd yn 2004 ar effeithiolrwydd systemau llethu tân awtomatig, a dywedodd y byddai canlyniadau hyn ar gael yn 2011. Esboniodd y Gweinidog y byddai angen ystyried y canlyniadau hyn cyn cyflwyno rheoliadau drafft.⁶¹

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

59. Ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol, esboniodd Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaethau Tân ac Achub Swydd Stafford:

⁵⁴ Y Cofnod, para 24, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010

⁵⁵ Y Cofnod, para 245, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010

⁵⁶ Ibid.

⁵⁷ Y Cofnod, para 43-44, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

⁵⁹ Y Cofnod, para 153, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25; a'r Cofnod, para 157, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

"The BRE report requires updating. Although it was published in 2004, much of the information was taken from way back before we were installing sprinklers; therefore we did not have the empirical evidence to include in the report to make it more robust."⁶²

60. Cadarnhaodd bod yr adroddiad a gyhoeddodd BRE yn 2004 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a dywedodd bod canlyniadau cychwynnol wedi dangos ei bod yn debygol y bydd yr ystadegau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd systemau llethu tân awtomatig yn gwella'n sylweddol.⁶³

61. Pan holwyd yr Aelod sy'n gyfrifol a fyddai'n rhesymol aros am ganlyniad adolygiad BRE cyn symud ymlaen â'r Mesur arfaethedig, esboniodd ei bod yn gweithio i gyfyngiadau amser penodol gan fod angen i'r Mesur arfaethedig gwblhau ei daith drwy'r Cynulliad cyn ei ddiddymu. Oherwydd hyn, ni allai fforddio aros yn hwy.⁶⁴

Ein barn

62. Rydym yn cydnabod bod lefelau amrywiol o gefnogaeth yn y dystiolaeth i egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig; o gynrychiolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub a chyn-swyddogion tân sy'n cefnogi'r Mesur arfaethedig yn llawn ac yn dadlau yn gryf mai dull deddfwriaethol o weithredu yw'r unig ffordd i leihau niferoedd y marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i danau yn y cartref, i gynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai, sy'n codi pryder y gallai'r ddeddfwriaeth fod yn gamarweiniol, ac yn awgrymu y dylai mwy o waith gael ei wneud mewn sawl maes allweddol cyn iddo symud ymlaen.

63. Mae'n amlwg mai'r hyn sy'n sbarduno'r Mesur arfaethedig yw'r awydd i helpu achub bywydau a diogelu'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl o farwolaeth ac anafiadau o ganlyniad i danau. Rydym yn derbyn bod diogelwch tân yn y cartref wedi gwella dros y blynyddoedd a bod cartrefi sy'n cael eu hadeiladu heddiw yn debygol o fod wedi'u diogelu'n well rhag effeithiau tân na thai hŷn. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni - sef bod 80 y cant o farwolaethau ac

⁶² Y Cofnod, para 50, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

⁶³ Y Cofnod, para 50, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010, Llythyr gan Chris Enness at Rosemary Butler AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 4 Hydref 2010

⁶⁴ Y Cofnod, para 52, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

anafiadau o ganlyniad i danau yng Nghymru yn digwydd yn y cartref. Mae hyn yn awgrymu bod angen gweithredu yn y maes hwn. Wrth i unigolion a theuluoedd ddioddef o ganlyniad i danau, ac wrth i effeithiau tân barhau i roi baich ar economi Cymru o ran cost, rydym yn credu y gallai mwy gael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac y dylai hynny ddigwydd.

64. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth ynghylch goblygiadau ymarferol ac ariannol y Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y ddeddfwriaeth, fel y'i drafftwyd, yn darparu pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn rhoi grym i fwriad polisi'r Mesur arfaethedig, ac yn rhoi dyletswydd arnynt i ymgynghori cyn gwneud hynny. Mae'r Gweinidog wedi pwysleisio y bydd angen gwneud gwaith mewn nifer o feysydd cyn cyflwyno rheoliadau. Fel y cyfryw, rydym yn fodlon y bydd hyn yn rhoi cyfle i archwilio'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth yn fwy manwl, gyda'r bwriad o ganfod ffordd ymlaen sy'n dderbyniol i randdeiliaid.

65. Yn wyneb yr uchod, **rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig**. Mae manylion pellach ynghylch sut y daethom at y casgliad hwn wedi'u nodi isod.

66. Mae'r honiad bod y trefniadau deddfwriaethol presennol mewn perthynas â diogelwch tân domestig—sef Rheoliadau Adeiladu 2000—yn rhoi digon o amddiffyniad rhag tân i adeiladau newydd yn ganolog i'r ddadl a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai. Fel y soniwyd uchod, rydym yn cydnabod y bu gwelliannau mewn diogelwch tân yn y cartref dros y blynyddoedd. Rydym yn derbyn y gellid dadlau yn rhesymol fod cartrefi a adeiladwyd ers 1992, pan gyflwynwyd y gofyniad i osod canfodyddion tân gwifredig mewn tai a adeiladir o'r newydd, yn cael eu hamddiffyn yn well o'u cymharu â'r stoc dai hyn. Er gwaethaf hyn, mae'n amlwg fod marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau yn dal i ddigwydd yng Nghymru. Rydym yn credu, felly, bod lle i wella ymhellach.

67. Rydym wedi cael tystiolaeth gref bod systemau llethu tân awtomatig yn rhoi mwy o fuddion na mesurau diogelwch tân presennol, gan gynnwys canfodyddion mwg. Er y gall canfodyddion mwg fod yn ddigon i achub bywydau rhai, ni fyddant o reidrwydd yn achub bywydau pawb, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Yn gysylltiedig â hyn, rydym yn

ymwybodol bod demograffeg Cymru yn heneiddio, ac rydym yn ymwybodol hefyd o'r polisïau presennol sy'n sicrhau bod unigolion yn aros yn eu cartrefi cyhyd ag y gallant. Fel y cyfryw, rydym yn credu ei fod yn synhwyrol ac yn amserol i wella diogelwch tân domestig ac rydym yn credu bod y Mesur arfaethedig yn rhoi cyfle i wneud hyn.

68. Heriwyd y Mesur arfaethedig yn sylfaenol gan gynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai o ran y diffyg tystiolaeth empirig am nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn cartrefi newydd. Rydym yn derbyn nad yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn casglu tystiolaeth o'r fath. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod hyn yn gyfiawnhad digonol dros oedi'r broses ddeddfu, yn enwedig o ystyried tystiolaeth arall a gafwyd ynghylch manteision posibl y Mesur arfaethedig.

69. Rydym yn nodi awgrym rhai o'r ymatebwyr y byddai targedu mesurau diogelwch tân at y stoc dai hŷn, neu grwpiau risg uchel, yn ffordd fwy effeithiol o leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau. Fodd bynnag, mae'n amlwg o dystiolaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub ac eraill bod yr arfer o dargedu grwpiau o'r fath eisoes wedi'i hen sefydlu yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod addysg yn y gymuned a chynlluniau eraill fel hyrwyddo larymau mwg batri wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, rydym yn credu bod angen dull mwy cynhwysfawr o weithio, a bod y Mesur arfaethedig yn darparu hyn. Er ein bod yn derbyn y bydd systemau llethu tân awtomatig yn cael eu gosod mewn cartrefi newydd yn unig, rydym yn cydnabod y bydd pawb yn cael eu hamddiffyn yn yr un modd dros amserwrth i dai newydd gymryd lle'r stoc dai hŷn-waeth beth yw oedran neu fath yr eiddo y maent yn byw ynddi, neu o ba grŵp economaidd-gymdeithasol y maent yn dod.

70. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth bod dadansoddiadau cost a budd presennol a gynhaliwyd yn y DU mewn perthynas ag effeithiolrwydd systemau llethu tân awtomatig yn methu â chefnogi gosod y systemau hyn ym mhob cartref a adeiladir o'r newydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod gosod gorfodol eisoes yn gweithio'n llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r byd, e.e. Vancouver a Scottsdale Arizona yn yr Unol Daleithiau, a'i fod yn cael ei ystyried yn synnwyr cyffredin o safbwynt economaidd. Rydym yn nodi bod y Sefydliad

Ymchwil Adeiladu (BRE) yn gwneud gwaith ar hyn o bryd i ddiweddarau ei ddadansoddiad gwreiddiol i ystyried profiadau rhyngwladol fel rhai yr Unol Daleithiau ac rydym yn deall y bydd canlyniad y gwaith hwn ar gael yn fuan. Rydym yn ymwybodol fod gan y Gweinidog amheuron penodol ynghylch y ddyletswydd i osod systemau llethu tân awtomatig ym *mhob* preswylfa newydd a'i bod yn ymddangos bod ei hamheuron yn seiliedig yn rhannol ar y dadansoddiad cost a budd presennol. Rydym yn croesawu ei bwriad i roi ystyriaeth ddyledus i ganfyddiadau diweddaraf BRE ac rydym yn hyderus y bydd yn ystyried y rheoliadau hyn wrth iddi wneud y rheoliadau.

71. Wrth ystyried a oes angen y Mesur arfaethedig, ceisiwyd canfod a ellid bodloni ei nod heb fod angen deddfwriaeth ychwanegol. Wrth wneud hyn, edrychasom yn fras ar y pwerau a fydd yn cael eu trosglwyddo gan Weinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau)(Rhif 2) 2009 ('y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau'). Mae'n amlwg y byddai'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen ar Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu i roi grym i fwriad polisi'r Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg ei bod yn annhebygol y byddai diwygiad o'r fath yn cael ei wneud yn fuan iawn, yn rhannol oherwydd bod 'sunrise clause' wedi'i gynnwys (i wahardd cyflwyno darpariaeth statudol tan yn ddiweddarach), ac yn rhannol oherwydd y byddai angen i'r ysgogiad i wneud hynny ddod gan Lywodraeth Cymru arall yn y dyfodol. O ystyried hyn, **rydym yn fodlon bod y Mesur arfaethedig yn gyfrwng deddfwriaethol priodol ac yn darparu ffordd ymlaen sy'n effeithiol ac yn amserol.**

72. Am y rhesymau a nodir uchod, **rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.**

4. Goblygiadau ymarferol

Cefndir

73. Yn ôl y canllawiau *Guidelines for the Supply of Water to Fire Sprinkler Systems*,⁶⁵ a gyhoeddwyd gan y Fire Protection Association, y math mwyaf cyffredin o gyflenwad dŵr a ddefnyddir ar gyfer systemau llethu tân awtomatig yw:

- cyswllt uniongyrchol â phrif gyflenwad dŵr;
- cyflenwad dŵr a gaiff ei storio a'i bwmpio;
- tanciau storio dŵr mawr, gyda digon o gapasiti i gyflenwi llif a gynlluniwyd o amser penodol;
- sestonau bach, gyda llai o gapasiti ac yn ddibynnol ar y mewnlif o bibell wasanaeth dŵr i ychwanegu at y capasiti a gynlluniwyd;
- cyflenwad disgyrchiant o seston storio;
- llestr o dan bwysau; a
- dŵr derbyniol wedi'i ailgylchu, e.e. systemau adfer dŵr glaw.

74. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn dweud bod gan Gymru un o'r cyflenwadau dŵr gorau yn y DU. Gan fod cyflenwi dŵr ar gyfer defnydd domestig yn ofynnol o dan *Ddeddf Diwydiant Dŵr 1971*, aiff ymlaen i awgrymu "[na] thybir y bydd yr effaith yng Nghymru yn sylweddol"⁶⁶ o ran costau darparu dŵr o'r llif a'r pwysedd angenrheidiol ar gyfer systemau llethu tân awtomatig.

75. Wrth amcangyfrif costau gosod systemau llethu dŵr awtomatig, mae'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd yn "[cymeryd] yn ganiataol na fydd angen tanc na phwmp ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad dŵr ar anheddau yng Nghymru," er mwyn sicrhau bod y systemau'n gweithredu'n effeithiol.⁶⁷

⁶⁵ *Guidelines for the supply of Water to Fire Sprinkler Systems*, Mai 2004

⁶⁶ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1, para 8.16

⁶⁷ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S, para 8.20

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

76. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth anghyson mewn cysylltiad â'r rhwystrau ymarferol posibl i weithredu'r Mesur arfaethedig. Awgrymodd y rhai a oedd yn cynrychioli'r diwydiant dŵr a'r diwydiant adeiladu tai nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â darparu a chynnal a chadw cyflenwad dŵr o bwysedd digonol i sicrhau gweithredu system llethu tân awtomatig yn effeithiol.

77. Cafodd y wybodaeth a gofnodwyd yn y Memorandwm Esboniadol ei herio gan gynrychiolwyr y diwydiannau dŵr ac adeiladu tai a fynegodd bryderon o ran y materion cysylltiedig o gyflenwad dŵr, pwysedd dŵr a chostau.

78. Wrth son am yr awgrym yn y Memorandwm Esboniadol na fyddai angen tanc neu bwmp ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad dŵr i sicrhau bod systemau'n gweithredu'n effeithiol, dywedodd Dŵr Dyffryn Dyfrdwy:

“We believe this to be an incorrect assumption and believe the additional tank to be necessary, as it would provide mitigation against the loss of supply.”⁶⁸

79. Cafodd y mater hwn ei drafod yn hir gyda Dŵr Cymru a ddywedodd mai dewis Dŵr Cymru fyddai i system chwistrellu gael ei chyflenwi gan danc storio a phwmp.⁶⁹

80. Mynegodd cynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai bryderon hefyd am y dybiaeth a wneir yn y Memorandwm Esboniadol y gellir cysylltu systemau yn uniongyrchol â'r prif gyflenwad. Wrth wneud sylwadau am hyn, dywedodd, Bovis Homes Group PLC:

"Our research reveals this to be simplistic and overly optimistic. In discussions with members belonging to the Fire Sprinkler Association, it is evident that to be effective, the system relies on a known pressure and guaranteed flow rate. We are rarely able to rely upon the Utility providers guaranteeing pressure, as such, we are recommended to allow for storage tanks and pumps."

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS6.

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS20.

"As well as the additional costs associated with these facilities, there is the additional cost of providing space to house these requirements, together with strengthening floors and roof trusses to house tanks."⁷⁰

81. Dywedodd NHBC hefyd:

"Technically water supplies need to be reliable and of adequate pressure and it is likely that residential sprinklers would not operate effectively in a significant proportion of households, due to insufficient water pressure. This will result in greater expense, as pumps and storage tanks will need to be introduced to achieve the required sprinkler coverage in the event of a fire occurring. This will require investigation to ensure that a practical solution is forthcoming that can be applied to the vast majority of new homes."⁷¹

82. Yn yr un modd, mynegodd HBF bryderon nad oedd y farn na fyddai angen pwmp a thanc storio wedi cael eu profi'n llawn a bod angen gwneud mwy o waith oherwydd hynny. Mae hefyd yn credu bod angen mwy o waith i gadarnhau ymarferoldeb a'r costau sy'n ymwneud â chysylltu'r systemau â'r prif gyflenwadau dŵr.⁷² Roedd Llanmoor Homes ac Anwyl Construction Co Ltd yn rhannu'r farn hon.⁷³

83. Felly hefyd, cododd, Redrow Homes Ltd bryderon fod barn Dŵr Cymru am yr anawsterau posibl o ddarparu digon o gyflenwadau o ddŵr wedi cael eu diystyrru, a bod angen ymchwilio i hyn ymhellach.⁷⁴

84. Mewn tystiolaeth, esboniodd Dŵr Cymru y gofynion technegol sy'n gysylltiedig â chyflenwi chwistrellau yn uniongyrchol o'r prif gyflenwad, sef "a communication pipe larger than currently laid plus other extra fittings in the pavement to allow a sprinkler supply to be given as well as a domestic supply."⁷⁵

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15.

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS17.

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23.

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23a, DFS23b.

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS19.

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS20.

85. O ran cael digon o bwysedd yn y prif gyflenwad dŵr i gysylltu â system llethu tân awtomatig a'i gweithredu, dywedodd Dŵr Cymru:

“The Water Industry Act 1991 requires that water supplied for domestic purposes should merely have sufficient pressure to reach the top storey of the premise. The Regulator (Ofwat) additionally requires that water undertakers report the number of properties that are likely to receive pressures below 1 bar (10 metres) with a flow of 9 litres/min. This is the pressure most water undertakers aim for in order to maximize efficiency and this will govern the pressure at the non-domestic (sprinkler system) supply point. It will be noted that this is well below the 2.5 bar (25m) that Dwr Cymru Welsh Water considers will be necessary to operate a sprinkler system to a two storey dwelling without a pressure boosting pump and a meter.”⁷⁶

86. Fodd bynnag, roedd Dŵr Cymru yn cydnabod y byddai rhai ardaloedd lle y byddai'r pwysedd dŵr bob amser yn uwch na'r hyn sydd ei angen ar gyfer gweithredu system llethu tân awtomatig yn effeithiol ac y byddai'n bosibl cysylltu â'r brif gyflenwad dŵr, er enghraifft mewn ardaloedd lle mae bryniau.⁷⁷ Esboniodd Dŵr Cymru, hefyd, fod cwmnïau dŵr yn defnyddio dulliau rheoli pwysedd i leihau achosion lle mae dŵr yn gollwng, gan fod mwy o bwysedd yn arwain at fwy o achosion o bibellau'n torri a cholli mwy o ddŵr drwy ddŵr yn gollwng a phibellau'n torri. Er mwyn sicrhau bod y cyflenwad o ddŵr yn fwy effeithlon drwy ollwng llai a llai o ddefnydd yn gyffredinol, defnyddir dulliau rheoli pwysedd yn eang ar draws y systemau dosbarthu yng Nghymru.⁷⁸

87. Er bod Dŵr Cymru wedi tynnu sylw at nifer o feysydd a oedd yn peri pryder o ran goblygiadau ymarferol y Mesur arfaethedig, cyfeiriodd, hefyd, at nifer o ffyrdd y gallai gefnogi gweithredu'r Mesur arfaethedig. Er enghraifft, dywedodd Dŵr Cymru y byddai mesurydd cyflenwad chwistrellu yn arwain at gostau annymunol a cholled sylweddol mewn pwysedd. Am y rheswm hwnnw, ac er mwyn annog gosod systemau

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS20.

⁷⁷ Ibid.

⁷⁸ Ibid.

chwistrellu, esboniodd Dŵr Cymru nad yw'n bwriadu gwneud mesurydd yn orfodol ar hyn o bryd oni bai y caiff y cyflenwad ei gamddefnyddio.⁷⁹

88. Dywedodd Dŵr Cymru hefyd,

“[while the company] remains convinced that the extra costs of providing a water supply without the installer providing a tank and a pump will be significant it will make every effort to ensure that costs are minimised”.⁸⁰

89. Wrth wneud sylwadau am y goblygiadau ymarferol o ran cyflenwi dŵr, dywedodd NFSN nad oedd cwmnïau dŵr eraill yr oedd wedi cael trafodaeth â hwy ar y mater hwn, o reidrwydd, yn rhannu yr un farn â Dŵr Cymru.⁸¹

90. Aeth yn ei flaen i awgrymu y gallai rhai cwmnïau dŵr fod yn amharod i gyflenwi systemau llethu tân yn uniongyrchol o'r prif gyflenwad rhag ofn i achos o gyfrifoldeb cyfreithiol godi pe bai rhywbeth yn amharu ar y cyflenwad, a gallai hynny olygu bod y systemau llethu yn aneffeithiol pan fyddai eu hangen.⁸²

Tystiolaeth gan y Gweinidog

91. Wrth drafod goblygiadau ymarferol y Mesur arfaethedig, nododd y Gweinidog y tybiaethau a gafodd eu gwneud o ran cyflenwi dŵr yn y Memorandwm Esboniadol, ac awgrymodd:

"Advice from Dŵr Cymru should be sought as to whether these assumptions are reasonable."⁸³

92. Yn ogystal â hyn, nododd y farn a fynegodd Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy o ran y tybiaethau costau yn y Memorandwm Esboniadol.⁸⁴

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS20.

⁸⁰ Ibid.

⁸¹ Y Cofnod, para 187, para 265-266, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010.

⁸² Y Cofnod, para 272, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010.

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25.

⁸⁴ Y Cofnod, para 157, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

93. Ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol, roedd Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Stafford, yn gwadu'r awgrym mewn tystiolaeth nad oedd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â darparu cyflenwad dŵr o bwysedd digonol i sicrhau bod systemau llethu tân awtomatig yn gweithredu'n effeithiol. Dywedodd:

"I do not think that there is any underestimation going on. The fact is that every premise has a water supply – if you can run a shower, you can run a sprinkler system. It is no more technical than that. There are five different sources in the current British Standard 9251:2005 by which you can draw water to make it easy and accessible for all."⁸⁵

94. Yn groes i'r Memorandwm Esboniadol, roedd Mr Enness yn cydnabod y gallai fod rhai achlysuron pan na fyddai pwysedd y dŵr yn ddigonol at ddibenion gosod system llethu tân awtomatig effeithiol.⁸⁶ Ar yr achlysuron hyn, esboniodd y gallai dŵr gael ei gyflenwi drwy danc storio a phwmp, a fyddai'n golygu ychydig mwy o gostau.⁸⁷

95. Er gwaethaf hyn, dywedodd Mr Enness:

"...I maintain that it would be the exception to need a pump. I would say that we are supported by the evidence when there have been mass installations of sprinklers at new properties. The majority have not required a pump. That evidence is not available in the UK, because we do not do it, but if you go back to Studley Green and Warrington, you will see that the premises in question did not all require pumps and tanks."⁸⁸

96. Wrth gyfeirio at amcangyfrif Dŵr Cymru o gostau cyflenwi dŵr drwy'r prif gyflenwad (sef £695 i £976 ar gyfer pob eiddo), dywedodd Mr Enness ei fod wedi synnu at yr amcangyfrif ac awgrymodd ei bod yn ymdebygu fwy i gostau ôl-osod. Aeth ymlaen i awgrymu mai'r unig gostau

⁸⁵ Y Cofnod, para 127, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010.

⁸⁶ Y Cofnod, para 141, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010.

⁸⁷ Ibid.

⁸⁸ Y Cofnod, para 127, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010.

ychwanegol mewn cysylltiad â'r cyflenwad dŵr fyddai ar gyfer y gwahanol feintiau o bibellau fyddai eu hangen.⁸⁹

97. Fodd bynnag, mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau ers hynny bod y ffigurau a ddarparwyd yn berthnasol i gartrefi a gaiff eu hadeiladu o'r newydd.

Ein barn

98. Rydym yn nodi'r dystiolaeth anghyson mewn cysylltiad â'r goblygiadau ymarferol o ddarparu a chynnal a chadw cyflenwad dŵr o bwysedd digonol er mwyn sicrhau bod system llethu tân awtomatig yn gweithredu'n effeithiol. Rydym yn cydnabod y pryderon a gododd cynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai a'r diwydiant dŵr o ran y tybiaethau yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch sicrhau cyflenwad dŵr digonol i weithredu system llethu tân awtomatig. Rydym yn nodi bod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi cytuno y gallai fod rhai achlysuron, yn ymarferol, lle y bydd angen tanc storio a phwmp ychwanegol ac y gallai hyn olygu costau ychwanegol i'r diwydiant adeiladu tai.

99. Rydym yn parhau'n bryderus nad yw'r goblygiadau ymarferol o ran darparu a chynnal a chadw cyflenwad dŵr heb eu datrys eto. Rydym yn nodi bwriad y Gweinidog i wneud mwy o waith cyn gwneud rheoliadau er mwyn rhoi effaith i fwriad polisi'r Mesur arfaethedig. Fel rhan o hyn, rydym yn ei hannog i archwilio'r goblygiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â dyletswydd adran 1 i ddarparu systemau llethu, gan ystyried y dystiolaeth a gawsom mewn cysylltiad â hyn.

⁸⁹ Y Cofnod, para 111, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010.

5. Goblygiadau ariannol

Costau gosod

Cefndir

100. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“...cost gosod system o’ fath ym mhob annedd fyddai £1,223 ar gyfartaledd, gydag amcangyfrif isel o £978 ac amcangyfrif uchel o £1,719...gallai’r cyfanswm ar gyfer gosod system llethu tân awtomatig mewn 10,000 o breswylfeydd y flwyddyn fod rhwng £10 miliwn a £17 miliwn y flwyddyn.”⁹⁰

101. Nodir hefyd:

“...y costau posibl a amcangyfrifir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fydd rhwng £0.5 miliwn a £3.3 miliwn y flwyddyn, yn dibynnu ar nifer yr adeiladau newydd a gaiff eu codi a’r adeiladau sydd eisoes yn bodoli a gaiff eu trosi.”⁹¹

[...]

“Ar sail yr amcangyfrif o gostau, sef rhwng £978 a £1,719 ar gyfer gosod system llethu tân awtomatig ac adeiladu 6,500 i 9,000 o anheddau gan fentrau preifat mewn blwyddyn, byddai’r costau gosod rhwng £6.4 miliwn ac £15.5 miliwn....”⁹²

Tystiolaeth gan y rheini a roddodd dystiolaeth

102. Mynegwyd pryder gan gynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai a’r sector tai cymdeithasol bod y gost o osod systemau llethu tân awtomatig a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol wedi’i hamcangyfrif yn rhy isel. Roedd y rhesymau dros hyn fel a ganlyn:

⁹⁰ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1, para 8.21

⁹¹ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1, para 8.35

⁹² Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1, para 8.41

- Ni ystyriwyd yr unig gostau gosod gwirioneddol a ddarparwyd, h.y. £5,100, sef y ffigur a ddarparwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru yn seiliedig ar gynllun peilot Aberafan;
- Cymerwyd yn ganiataol yn y Memorandwm Esboniadol na fydd costau ynghlwm wrth gyflenwi dŵr i'r systemau;
- Cymerwyd yn ganiataol na fydd angen tanciau storio a phympiau.

103. Darparwyd dyfynbrisiau gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Bovis Homes Group PLC a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ar gyfer gosod systemau llethu tân a oedd yn fwy na'r costau a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol.⁹³ Mewn rhai achosion roedd y costau ddwywaith cymaint. Aeth Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai ymlaen i godi pryder nad oedd yr amcangyfrif o'r gost o osod taenellwyr wedi'i seilio ar ddigon o dystiolaeth, a phwysleisiodd y byddai angen gwneud mwy o waith yn hyn o beth.⁹⁴

104. Yn wahanol i'r Aelod sy'n gyfrifol, pwysleisiodd Dŵr Cymru y byddai'r gost o gysylltu â'r prif gyflenwad dŵr yn sylweddol. Darparodd gyfrifiadau cychwynnol, rhwng £695 a £976.⁹⁵ Yn yr un modd, drwy ddefnyddio ffigurau o adroddiad BRE, esboniodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai bod costau cysylltu yn amrywio rhwng ardaloedd. Yn seiliedig ar brosiectau gwirioneddol, roedd yn amrywio o £600 i £1500.⁹⁶

105. Fel yr esboniwyd eisoes, mae cynrychiolwyr y diwydiannau dŵr ac adeiladu tai yn amau honiad y Gweinidog sy'n gyfrifol na fydd angen tanc storio a phwmp er mwyn cyflenwi dŵr i systemau llethu tân. Mae tystiolaeth Cartrefi Cymunedol Cymru a Bovis Homes Group PLC yn awgrymu y gallai darparu'r offer hwn ychwanegu lleiafswm o £1,000 at yr amcangyfrif o'r gost gosod.⁹⁷

106. Credai cynrychiolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub ac NFSN yn gryf y byddai'r manteision a ddaw o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig yn

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS22, DFS23

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS20

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS22, DFS15

gorbwyso'r holl gostau cysylltiedig.⁹⁸ Yn ogystal, awgrymwyd y byddai arbedion maint a datblygiadau mewn technoleg yn arwain at leihau'r costau.⁹⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

107. Ynghylch y gost o osod y systemau a nodir yn y Memorandwm Esboniadol, dywedodd y Gweinidog:

“In view of the potential sensitivity of costs to regional circumstances, and the critical importance of costs to any case for mandatory sprinklers, more evidence may be needed to establish Welsh estimates.”¹⁰⁰

108. Wrth roi sylwadau mwy cyffredinol ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig, dywedodd y Gweinidog:

"If the proposed Measure is approved by the National Assembly, in making the decision to bring forward regulations to give effect to the Measure, the incoming Assembly Government will want to consider its implications for house purchasers, the construction and house building industry, social landlords and others against a backdrop of Assembly Government plans and policies, both existing and proposed as well as other factors including the state of the Welsh economy."¹⁰¹

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

109. Wrth roi sylwadau ar gost gosod y systemau, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“We gathered our information...from Vancouver, for Scottsdale, Arizona and from New Zealand. We also took in the one or two examples from the UK. It would have been great if we could have

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS8, DFS12, DFS16

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS9, CFS12, a'r Cofnod, para 280, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

¹⁰¹ Ibid.

had all the financial implications and costings based on evidence from the UK, but that is sadly not the case.”¹⁰²

110. Aeth ymlaen i ddadlau:

“Our costs are realistic, given the evidence on which we have based them...”¹⁰³

111. Awgrymodd yr Aelod sy’n gyfrifol hefyd y byddai costau gosod yn lleihau dros amser wrth i’r Mesur arfaethedig gael ei weithredu ac wrth i arbedion maint gael eu gwireddu.¹⁰⁴

112. Fel y Gwasanaeth Tân ac Achub, dadleuai’r Aelod sy’n gyfrifol yn gryf y bydd y manteision a geir gan y Mesur arfaethedig yn gorbwyso’r holl gostau cysylltiedig.

Y posibilrwydd i ddatblygwyr wrthbwyso costau

Cyfnewid cynlluniau

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad

113. Yn y Memorandwm esboniadol, mae’r Aelod sy’n gyfrifol yn awgrymu y gallai datblygwyr gyfnewid cynlluniau ar gyfer dylunio adeiladau a mesurau diogelwch tân goddefol i helpu mynd i’r afael â goblygiadau cost y Mesur arfaethedig.¹⁰⁵ Ymysg yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y mater hwn, roedd barn gymysg.

114. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y Gymdeithas Diogelwch Tân Arbenigol (ASFP):

“...the ASFP is totally opposed if the measure is introduced on the basis of trade-offs against passive fire protection than cannot be justified either morally or financially.”¹⁰⁶

¹⁰² Y Cofnod, para 94, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

¹⁰³ Y Cofnod, para 109, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

¹⁰⁴ Y Cofnod, para 178-179, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

¹⁰⁵ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1, para 8.14

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS14

115. Pwysleisiodd bod angen ystyried systemau llethu tân awtomatig fel rhan o'r broses holistig sy'n rhan o gyfundrefn diogelwch tân effeithiol, h.y. cydbwysedd priodol o fesurau goddefol a gweithredol.¹⁰⁷

116. Wrth roi sylwadau ar y mater hwn, nododd HBF bod adroddiad CLG wedi canfod ei bod yn annhebygol y bydd y gostyngiadau cost o ran rhyddid dylunio wrth osod taenellwyr yn sylweddol. Gan hynny, aeth HBF ymlaen i awgrymu bod angen gwneud mwy o waith cyn y gellir cyfnewid cynlluniau er mwyn cyfiawnhau cyflwyno'r Mesur arfaethedig.¹⁰⁸

117. Amlinellodd CFOA Cymru rai enghreifftiau o ryddid dylunio a allai ddiogwydd yn sgil cyfnewid cynlluniau.¹⁰⁹ Awgrymodd:

“further work in exploring potential trade-offs in building design may realise further building cost savings.”¹¹⁰

Gwerth y tŷ

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

118. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth gan y diwydiant adeiladu tai sy'n anghytuno â honiad yr Aelod sy'n gyfrifol y gellid adlewyrchu costau gosod a chynnal systemau llethu tân awtomatig yng ngwerth y tŷ.

119. Awgrymwyd na fyddai priswyr tai yn cydnabod unrhyw bremiwm sy'n gysylltiedig â thŷ lle mae system llethu tân awtomatig wedi'i osod.¹¹¹ Fel enghraifft, esboniodd HBF na chafodd gwelliannau cynaliadwy tebyg i adeiladau yn natblygiad Barratt yn Hanham Hall ddim effaith o gwbl ar y prisiau terfynol.¹¹²

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS14

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23

¹⁰⁹ Y Cofnod, para 90-91, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

¹¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS12

¹¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15, DFS19, DFS23, DFS23a, DFS23b

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23

Gwerth tir

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

120. Fel yn achos gwerth y tŷ, anghytunai cynrychiolwyr o'r diwydiant adeiladu tai â honiad yr Aelod sy'n gyfrifol y gellid cynnwys costau gosod a chynnal systemau llethu tân mewn gwerthoedd tir is.¹¹³

121. Yn ei dystiolaeth, codwyd pryder gan HBF bod Cymru eisoes yn cael problemau gyda gwerthoedd tir isel mewn rhai ardaloedd. Mynnodd, felly, fod yr honiad hwn yn un peryglus iawn.¹¹⁴

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

122. Wrth roi sylwadau ar gyfnewid cynlluniau, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“I think that we right to point out that there could be some [design] freedoms. I am not talking about a situation where you install a sprinkler so you do not need anything else.”¹¹⁵

123. O ran y cynnydd posibl i werth cartrefi sydd â systemau llethu tân awtomatig, amlinellodd yr Aelod sy'n gyfrifol ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd gan Awdurdod Tân Wiltshire a Swindon, ac awgrymodd eu bod yn rhoi tystiolaeth gref fod preswylwyr yn deall manteision systemau llethu tân awtomatig ac felly yn rhoi mwy o werth ar gartrefi lle mae'r systemau hyn wedi'u gosod.¹¹⁶

124. Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn parhau i fod o'r farn bod systemau llethu tân yn ychwanegu gwerth at eiddo ac awgrymodd y byddai priswyr tai yn ystyried hyn unwaith y bydd y Mesur arfaethedig ar waith.¹¹⁷

Ein barn

125. Rydym yn ymwybodol o'r dystiolaeth anghyson a gafwyd mewn perthynas â goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig. Rydym yn cydnabod bod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi darparu tystiolaeth fanwl mewn perthynas â chostau, ac rydym yn croesawu hyn. Fodd bynnag, rydym yn

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS19, DFS23, DFS23a, DFS32b

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23

¹¹⁵ Y Cofnod, para 142, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

¹¹⁶ Y Cofnod, para 95 a para 152, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

¹¹⁷ Y Cofnod, para 157-158, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

nodi bod yr amcangyfrif o gost gosod systemau llethu tân awtomatig a roddwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn is na'r costau o ddarparwyd gan yr holl ymatebwyr eraill. O ystyried hyn, **rydym yn credu ei bod yn debygol y bydd y costau gosod ar gyfer y diwydiant adeiladu cartrefi a'r sector tai cymdeithasol yn uwch na'r amcangyfrif a nodir yn y Memorandwm Esboniadol.**

126. Yn gysylltiedig â'r uchod, rydym yn nodi safbwynt yr Aelod sy'n gyfrifol bod potential i ddatblygwyr wrthbwyso cost y Mesur arfaethedig drwy gyfnewid cynlluniau ar gyfer dylunio adeiladau a mesurau diogelwch tân goddefol, neu drwy basio'r costau ymlaen i brynwyr tai neu berchnogion tir ar ffurf prisiau tai uwch neu werthoedd tir is. Fodd bynnag, o ystyried y dystiolaeth i'r gwrthwyneb a gafwyd gan y diwydiant adeiladu tai, rydym yn dal i amau'r ddadl hon.

127. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r Aelod sy'n gyfrifol y gallai dyletswydd i osod systemau llethu tân awtomatig yn safonol ym mhob cartref newydd leihau costau gosod yn y tymor hwy o ganlyniad i arbedion maint.

128. **Rydym yn nodi bwriad y Gweinidog i wneud mwy o waith cyn gwneud rheoliadau a fydd yn gweithredu bwriad polisi'r Mesur arfaethedig. Fel rhan o hyn, rydym yn ei hannog i ailedrych ar y goblygiadau cost sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig, gan ystyried y dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â hyn.**

6. Sylwadau penodol ar adrannau o'r Mesur arfaethedig

Adran 1 – Dyletswydd i ddarparu systemau llethu tân awtomatig

Cefndir

129. Mae Adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd yng Nghymru. Bydd y ddyletswydd yn gymwys pan fydd gwaith adeiladu'n cael ei wneud i adeiladu neu drosi adeilad (neu ran ohono) i fod yn breswylfa. Bydd hefyd yn gymwys i greu preswylfa newydd drwy isrannu un breswylfa bresennol neu fwy neu drwy gyfuno preswylfeydd presennol er mwyn creu preswylfa newydd neu breswylfeydd newydd.

Hyd a lled y ddyletswydd

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

130. Roedd y rhai sy'n cefnogi'r Mesur arfaethedig yn fodlon bod y ddyletswydd i ddarparu systemau llethu tân awtomatig wedi'i chyfyngu i gartrefi a adeiladir o'r newydd.

131. Yn ei dystiolaeth, pwysleisiodd CFOA Cymru bod targedu eiddo newydd yn synhwyrol, yn gymesur ac yn ymarferol yn economaidd, o ystyried cyfoeth y genedl.¹¹⁸ Aeth ymlaen i egluro:

“We are not suggesting that the proposed Measure seek to retrofit existing housing stock...it will take 10 years to cover 10 to 15 per cent of the housing stock, but we have to start somewhere. If, in 10 years' time, 15 per cent of the Welsh housing stock is fitted with sprinklers, that will be a significant achievement.”¹¹⁹

132. Yn yr un modd, cydnabu NFSN y gallai cost ôl-osod fod yn afresymol ac roedd yn derbyn bod y ddyletswydd wedi'i chyfyngu i breswylfeydd a adeiledir o'r newydd.¹²⁰

133. Codwyd pryder gan rai ymatebwyr y byddai'r ddyletswydd i ddarparu systemau llethu tân awtomatig wrth drosi adeilad i fod yn breswylfa, neu

¹¹⁸ Y Cofnod, para 37, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

¹¹⁹ Ibid.

¹²⁰ Y Cofnod, para 209, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010

wrth greu preswylfa newydd drwy isrannu neu gyfuno, yn gostus. Mewn gwirionedd, byddai cymhwyso'r ddyletswydd i'r mathau hyn o adeiladau yr un peth ag ôl-osod.

134. Mae Adran 1(4)(1) yn darparu i Weinidogion Cymru ragnodi, drwy reoliadau, y gofynion penodol y mae'n rhaid i systemau llethu tân awtomatig gydymffurfio â hwy. Roedd y rhai a roddodd sylwadau ar hyn yn fodlon bod y manylion a'r safonau mewn perthynas â systemau llethu tân yn cael eu gosod gan y rheoliadau.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

135. Fel y soniwyd eisoes, credai'r Gweinidog bod yr achos dros gael gofyniad bod systemau llethu tân yn cael eu gosod mewn llety preswyl a adeiladir ac a drosir o'r newydd eto i'w wneud.¹²¹ Pwysleisiodd y byddai angen ystyried y dadansoddiad cost a budd diweddaraf cyn cyflwyno rheoliadau i weithredu bwriad polisi'r Mesur arfaethedig.¹²²

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

136. Er y byddai'r Aelod sy'n gyfrifol, yn ddelfrydol, wedi dymuno i'r ddyletswydd fod yn gymwys i gartrefi a adeiledir o'r newydd a'r stoc dai presennol, esboniodd bod angen gweithredu mewn dull ymarferol.¹²³ Credai y byddai'r gwrthwynebiad i ôl-osod systemau taenellu yn enfawr, ac y byddai'r gost yn aruthrol.¹²⁴

137. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol bod y ddyletswydd i osod systemau llethu tân awtomatig yn ymestyn tu hwnt i adeiladau a adeiledir o'r newydd i fod yn breswylfeydd oherwydd ei bod am sicrhau y byddai gan dai amlfeddiannaeth, sydd yn aml yn gartref i grwpiau risg uchel, ddiogelwch tân digonol yn ogystal.¹²⁵

138. O ran y rheoliadau, esboniodd Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol:

“...it is usual to delegate to regulations the provision of a certain technical standard to be complied with by a specific system,

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

¹²² Ibid.

¹²³ Y Cofnodi, para 32, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹²⁴ Ibid.

¹²⁵ Y Cofnod, para 44, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

because if you put that on the face of the proposed Measure and the industry standards change, you would have to change the Measure, which is completely impractical..."¹²⁶

139. A:

"...there are rules under European law that mean that technical standards have to be shown to the European Commission beforehand, so that it has enough time to decide whether they interfere in any way with free trade within the European Union. That means that there is a process and a discussion has to be held and so on. So, in practical terms that cannot be done by having the technical details on the face of a proposed Measure such as this."¹²⁷

Ein barn

140. Rydym yn nodi nad yw cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn ymestyn i ddarparu systemau llethu tân awtomatig yn y stoc dai bresennol. **Rydym yn cydnabod, felly, bod y ddyletswydd i ddarparu systemau llethu tân wedi'i chyfyngu i breswylfeydd newydd, ac rydym yn fodlon bod y dull hwn o weithredu yn gymesur ac yn ymarferol.**

141. Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth ynghylch goblygiadau ymarferol ac ariannol y ddyletswydd ar gyfer y rheini sy'n trosi adeilad i fod yn breswylfa, neu'n creu preswylfa newydd neu breswylfeydd newydd drwy isrannu neu gyfuno. Rydym yn cydnabod bod y rhesymeg dros gymhwyso'r ddyletswydd yn yr achosion hyn yn deillio'n bennaf o'r dymuniad i sicrhau bod eiddo sy'n cael ei drosi yn dai amlfeddiannaeth yn cael y diogelwch angenrheidiol rhag tân. Rydym yn fodlon, felly, bod y ddyletswydd yn gymwys i'r mathau eraill hyn o waith adeiladu.

142. **Rydym yn derbyn ei bod yn briodol bod y gofynion y mae'n rhaid i systemau llethu tân awtomatig gydymffurfio â hwy yn fater i Weinidogion Cymru i'w rhagnodi drwy reoliadau, fel y nodir yn adran 1(4)(c). Fodd bynnag, gan na fydd bwriad polisi'r Mesur arfaethedig**

¹²⁶ Y Cofnod, para 60, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹²⁷ Y Cofnod, para 61, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

yn dod i rym nes y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gwneud, rydym yn annog y Gweinidog i ystyried ymhellach y materion a amlinellir yn ei thystiolaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol, gyda'r bwriad o gyflwyno rheoliadau unwaith i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

Cynnal a chadw

Cefndir

143. Nid yw'r Mesur arfaethedig, fel y'i drafftwyd, yn gwneud dim darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus ar gyfer systemau llethu tân awtomatig. Mae'r ddyletswydd a ddarperir yn adran 1 yn gofyn bod "y system yn gweithio'n effeithiol" pan fydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau.

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r Pwyllgor

144. Mae'r Pwyllgor wedi cael dystiolaeth anghyson ynghylch gofynion cynnal a chadw parhaus systemau llethu tân awtomatig. Er i rai ymatebwyr awgrymu y byddai cynnal y systemau yn broses syml, roedd eraill yn pryderu y bydd ganddo oblygiadau ymarferol ac ariannol sylweddol. Yn yr un modd, cafwyd sylwadau amrywiol o ran pa mor bwysig yw gwaith cynnal a chadw parhaus ar gyfer gweithredu'r systemau yn effeithiol.

145. Codwyd pryder gan nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth na roddwyd digon o ystyriaeth i waith cynnal a chadw, ac nad oedd y goblygiadau ymarferol ac ariannol wedi'u gwerthfawrogi'n llawn.

146. Tynnwyd sylw gan gynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai na chaiff boeleri a thanau nwy eu cynnal, er gwaethaf y prawf blynyddol a awgrymir.¹²⁸ Awgrymwyd ganddynt y gellid tybio'n rhesymol y byddai'r un peth yn berthnasol i systemau llethu tân awtomatig ac y gallai hyn arwain at ddiffygion neu fethu â gweithredu pan fo angen.¹²⁹

147. Nododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai, Atal Tân Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru, mai systemau

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15, DFS18, DFS23, DFS23a, DFS23b

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15

sy'n gweithio'n gywir oedd â'r potensial i achub bywydau, ac felly bod gwaith cynnal a chadw parhaus yn ystyriaeth bwysig.¹³⁰

148. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

"...any initiative to provide fire suppression systems in new homes will only be as good as the number of households who maintain them..."¹³¹

149. Aeth rhai ymatebwyr ymlaen i gwestiynu a allai'r ffaith nad oes gofyniad ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus danseilio effeithiolrwydd y Mesur arfaethedig wrth gyflawni ei nod. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC):

"...ensuring appropriate and ongoing maintenance of the sprinkler system will be important and without this the aim of the Measure would be undermined. Further clarity on this point would be helpful and the intention of the Assembly regarding responsibility for inspection and maintenance needs to be clearly set out."¹³²

150. Er bod CFOA Cymru yn cytuno bog angen cynnal systemau llethu tân awtomatig, dadleuai bod y gofyniad ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi'i orbwysleisio.¹³³ Pwysleisiodd CFOA Cymru y byddai'n fodlon bod darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud mewn rheoliadau o dan y Mesur arfaethedig.¹³⁴ Yn yr un modd, dywedodd NFSN bod y gofyniad ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn syml iawn ac na ddylai fod yn broblem. Esboniodd fod y broses o gynnal a chadw systemau llethu tân awtomatig yn cael sylw yn y Safon Brydeinig BS:9251.¹³⁵

151. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid gwneud mwy o waith i bennu union gost cynnal a chadw systemau llethu tân awtomatig.¹³⁶ Dadleuai Bovis Homes Group PLC bod amcangyfrif yr Aelod sy'n gyfrifol, sef £20 i

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS13, DFS22, DFS15, DFS23, DDFS23a, DFS23b

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS22

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS10

¹³³ Y Cofnod, para 55, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

¹³⁴ Y Cofnod, para 58, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

¹³⁵ Y Cofnod, para 219, para 226-227, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15, DFS22, DFS23, DFS23a, DFS23b

£100 y flwyddyn, yn isel a dywedodd ei fod wedi cael isafswm dyfynbris o £110+TAW am bob ymweliad.¹³⁷

152. Rhoddodd Cartrefi Cymunedol Cymru enghreifftiau o gostau cynnal a chadw gwirioneddol a oedd yn sylweddol uwch na'r amcangyfrifon a nodir yn y Memorandwm Esboniadol.¹³⁸ Codwyd pryder ganddo ynghylch sut y byddai cymdeithasau tai yn talu cost flynyddol y gwaith cynnal a chadw.¹³⁹ Anghytunai â honiad yr Aelod sy'n gyfrifol y gallai staff cymdeithasau tai wneud gwaith cynnal a chadw ar yr un pryd ag ymweliadau eraill ag eiddo sydd ar rent.¹⁴⁰

153. Mewn perthynas â chynnal a chadw cyfarpar dŵr, dywedodd Dŵr Cymru y byddai'n bwysig cynnal profion rheolaidd ar y falf atal ôl-lifo, er mwyn atal dŵr llonydd yn y bibell sy'n cyflenwi'r taenellwr rhag llygru'r cyflenwad dŵr domestig.¹⁴¹ Esboniodd y gallai dŵr llonydd arwain at salwch difrifol.¹⁴² Nododd Dŵr Cymru yn ddiweddarach y credai fod E-coli yn fwy o risg na bacteria legionella.¹⁴³ Nodwyd hefyd risgiau posibl bacteria legionella, sy'n achosi clefyd y Llengfilwyr, gan gynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai a Chartrefi Cymunedol Cymru.¹⁴⁴

154. Wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch y cynnydd canfyddedig yn y risg o ddal clefyd y Llengfilwyr, esboniodd CFOA Cymru bod gwaith ymchwil a wnaed gan y Gymdeithas Taenellwyr Tân a'r Cyngor Atal Colled a ganfu

"there is no realistic chance of a member of the public contracting legionella from a sprinkler system...there are no published records of any instances of outbreaks of legionella or any other waterborne disease attributed to sprinklers among engineering staff or the public."¹⁴⁵

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15

¹³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS22

¹³⁹ Ibid.

¹⁴⁰ Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-20-EM-S1, para 8.38

¹⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS29

¹⁴² Ibid.

¹⁴³ Y Cofnod, para 138, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 7 Hydref 2010

¹⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS11, DFS22

¹⁴⁵ Y Cofnod, para 87, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

155. Yn yr un modd, dywedodd NFSN fod yr adroddiad gan y Cyngor Atal Colled yn dangos yn bendant nad yw legionella yn broblem ar gyfer system taenellu dŵr.¹⁴⁶

156. Yn gysylltiedig â gwaith cynnal a chadw, codwyd peth pryder y gallai systemau llethu tân awtomatig gychwyn yn ddirybudd, neu y gallai fwy o ddŵr ollwng lle mae systemau o'r fath wedi'u gosod, a fyddai'n arwain at gynnydd mewn hawliadau yswiriant.¹⁴⁷

157. Esboniodd CFOA Cymru na fydd taenellwr yn gweithredu'n ddirybudd; byddant ddim ond yn gweithredu pan fydd tân go iawn.¹⁴⁸ Dywedodd yn ddiweddarach bod un siawns mewn 16 miliwn bod y system yn methu.¹⁴⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

158. Wrth roi sylwadau ar y mater hwn, dywedodd y Gweinidog:

“...if failure to maintain or replace components results in a system that does not work, that would negate the objective and value of the initial investment.”¹⁵⁰

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

159. Ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol, dywedodd Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân ac Achub Swydd Stafford:

“We over-mystify the maintenance of a sprinkler system...The maintenance of it involves a quick visual inspection and a run-through – it is like flushing the toilet. So, we over-mystify the maintenance of a sprinkler system. It is like any water-serviced appliance; provided that the water is on, the system will work.”¹⁵¹

160. At hynny, dywedodd Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol:

¹⁴⁶ Y Cofnod, para 230, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 1 Hydref 2010

¹⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS7, DFS15, DFS18, DFS22, DFS23, DFS23a, DFS23b

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS12

¹⁴⁹ Y Cofnod, para 60, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 30 Medi 2010

¹⁵⁰ Y Cofnod, para 189, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹⁵¹ Y Cofnod, para 71, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

“...the proposed Measure as it stands does not impose a continuing maintenance obligation on the owners or occupiers of properties. It ensures that a proper system is installed and it can go no further than that, as the regulations made by the Ministers could make it a condition that a suitable maintenance agreement be offered to the purchaser. However, at the moment, it does not provide that the purchaser has a positive duty to maintain the system. The Assembly’s legislative competence could extend to that, but there are major implications about the kind of obligation, which would have been impossible to deal with in the limited time Ann has had to bring this proposed Measure before the Assembly.”¹⁵²

161. Pan holwyd yr Aelod sy’n gyfrifol a allai’r diffyg darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus danseilio effeithiolrwydd y Mesur arfaethedig, dywedodd:

“No. I would say that the sprinkler system being installed is an advantage in itself. The maintenance requirement is minimal and I do not think that it affects the proposed Measure at all.”¹⁵³

Ein barn

162. Rydym yn nodi’r dystiolaeth anghyson ynghylch gofynion systemau llethu tân awtomatig o ran gwaith cynnal a chadw parhaus. Codwyd pryder gan rai ymatebwyr y byddai gorfod cynnal systemau o’r fath yn cael goblygiadau ymarferol ac ariannol sylweddol i berchnogion tai a’r sector tai cymdeithasol, ac y gallai diffyg gwaith cynnal a chadw rheolaidd effeithio ar y ffordd y mae systemau llethu tân yn gweithio, yn ogystal â’u heffeithiolrwydd. Ar y llaw arall, awgrymai eraill bod cynnal systemau llethu tân yn waith syml iawn, gan nodi bod darpariaethau ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus wedi’u nodi yn y Cod Ymarfer Safonol Prydeinig ar gyfer systemau taenellu mewn eiddo preswyl a domestig (BS:9251 2005), sef y safon a gymeradwywyd ar gyfer systemau llethu tân. Ymddengys o BS:9251 2005 y byddai cynnal systemau llethu tân yn broses syml, sy’n cynnwys archwiliad a phrawf blynyddol gan gontractwr taenellwyr tân sydd â chymwysterau addas, yn debyg i’r un ar gyfer

¹⁵² Y Cofnod, para 78, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹⁵³ Y Cofnod, para 95, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

boeleri nwy. Cefnogwyd hyn gan dystiolaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Rhwydwaith Taenellwyr Tân Cenedlaethol (NFSN). Rydym yn fodlon, felly, na fyddai'r gwaith parhaus o gynnal a chadw systemau llethu tân yn profi i fod yn faich sylweddol ar berchnogion tai.

163. Er nad ydym yn dymuno dweud nad yw'r gwaith parhaus o gynnal systemau llethu tân awtomatig yn bwysig, cawsom dystiolaeth gref gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ac NFSN sy'n awgrymu bod systemau llethu tân yn gadarn ac yn ddibynadwy, hyd yn oed pan nad ydynt yn cael eu cynnal. Yn ogystal, rydym yn cydnabod pa mor gymhleth yw cynnwys gofyniad yn y Mesur arfaethedig bod perchnogion preswylfeydd newydd, yn enwedig perchnogion tai preifat, yn cynnal a chadw systemau llethu tân. **Rydym yn credu, felly, ei bod yn rhesymol bod unrhyw ofyniad am waith cynnal a chadw parhaus yn cael ei wneud drwy gyfeirio at y Safon Brydeinig ar gyfer systemau llethu tân, fel sy'n wir ar hyn o bryd. O ystyried hyn, rydym yn fodlon nad yw'r Mesur arfaethedig yn cynnwys dim darpariaeth ar gyfer y gwaith parhaus o gynnal a chadw systemau llethu tân.**

164. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan y sector tai cymdeithasol am y gost o gynnal a chadw'r systemau. Fel y nodwyd eisoes, **rydym yn annog y Gweinidog i ailedrych ar oblygiadau cost sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig, gan ystyried y dystiolaeth a gawsom.** Er ein bod yn derbyn nad oes darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y Mesur arfaethedig, rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe gellid ystyried sut y byddai'r sector tai cymdeithasol yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â hyn.

Adran 2 – Gorfodi

Cefndir

165. Mae Adran 2 yn cymhwyso adrannau 33 a 35 i 38 o Ddeddf Adeiladu 1984 mewn perthynas â gorfodi.

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

166. Ychydig iawn o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y ddarpariaeth o ran gorfodi. O'r rheini a wnaeth sylwadau, roedd y rhan fwyaf yn fodlon â'r dull a ddefnyddiwyd.

167. Er i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dderbyn na fyddai'r gost i awdurdodau lleol o orfodi dyletswydd adran 1 yn sylweddol, dywedodd:

"...it is important to point out the potential cost implications particularly during the current economic climate when local authorities are facing significant budgetary cuts over a sustained period."¹⁵⁴

168. Codwyd pryder gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC) nad oedd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi llawn werthfawrogi faint o hyfforddiant ac adnoddau a fyddai eu hangen i sicrhau y gall cyrff sy'n rheoli'r diwydiant adeiladu gyflawni eu cyfrifoldebau o dan adran 2. Aeth ymlaen i bwysleisio bod angen sicrhau bod systemau'n gweithio'n gywir pan gânt eu gosod, yn hytrach nag aros nes bod y tŷ'n cael ei gwblhau.¹⁵⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

169. Yn ei thystiolaeth, codwyd pryder gan y Gweinidog ynghylch y ddarpariaeth orfodi, am resymau cyfreithiol a thechnegol. Dywedodd:

"While the enforcement provisions have been related to those under the Building Act 1984, section 33 (Tests for conformity) of the Act has not yet been commenced. The Welsh Minister's (Transfer of Functions) (No.2) Order 2009 does not transfer to Welsh Ministers the ability to commence this section."

"Current requirements for testing are dealt with under Regulation 18 of the Building Regulations 2000 and Regulation 11 of the Building (Approved Inspector) Regulations 2000. We question how the Measure addresses the issue of testing."¹⁵⁶

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

170. Ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol, esboniodd Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol:

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS10

¹⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS17

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

“The proposed Measure tries to align very closely the enforcement of obligations under the proposed Measure with those under building regulations.”¹⁵⁷

171. Roedd yn derbyn y pwyntiau a godwyd gan y Gweinidog a chydnabu bod angen mwy o waith manwl mewn perthynas ag Arolygwyr Cymeradwy. Eglurodd:

“The intention is that it should be possible to enforce this proposed Measure in that way, in the same way as through the more usual local authority inspector route. That and a number of other similar issues are technical in nature and can be dealt with by Stage 2 amendments.”¹⁵⁸

172. Dadleuai'r Aelod sy'n gyfrifol bod y gost bosibl i'r cyrff sy'n rheoli'r diwydiant adeiladu yn fach iawn o'i gymharu â'r arbedion sydd i'w gwneud yn y pen draw, i'r economi ac i berchnogion tai.¹⁵⁹

Ein barn

173. Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y darpariaethau a gynhwysir yn adran 2 yn fodlon â'r dull orfodi a ddarperir yn yr adran honno. Rydym yn derbyn mai'r bwriad yw bod y ddarpariaeth orfodi a nodir yn y Mesur arfaethedig yn adlewyrchu'r hyn a ddefnyddir at ddibenion gorfodi Rheoliadau Adeiladu 2000, ac rydym yn ystyried bod hyn yn ddull synhwyrol o weithredu. Fodd bynnag, **rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan y Gweinidog mewn perthynas â chychwyn adran 33 o Ddeddf Adeiladu 1984 ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer gorfodi dyletswydd adran 1. Rydym yn credu y dylai'r broblem hon gael ei datrys er mwyn sicrhau bod y drefn orfodi a ddarperir ar ei chyfer yn y Mesur arfaethedig yn ymarferol ac yn effeithiol. Rydym yn argymhell, felly, bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r mater hwn, fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog yn ei thystiolaeth.**

¹⁵⁷ Y Cofnod, para 100, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹⁵⁸ Ibid.

¹⁵⁹ Y Cofnod, para 97, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

Adran 3 – Darparu Gwybodaeth

Cefndir

174. Mae Adran 3 yn ymwneud â gwybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno pan fydd gwaith adeiladu yn cael ei wneud o dan y Mesur arfaethedig.

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

175. Ychydig iawn o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar ddarparu gwybodaeth.

176. Ceisiodd NHBC eglurhad ynghylch a fyddai angen cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 3 mewn Hysbysiad Cychwynnol mewn achosion lle y defnyddiwyd Arolygydd Cymeradwy at ddibenion rheoli adeiladu. Aeth NHBC ymlaen i godi pryder ei bod yn ymddangos bod adran 3 yn newid deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylfaenol o ran y wybodaeth sydd ei hangen ar Hysbysiad Cychwynnol, a'i fod yn newid y sail ar gyfer gwrthod Hysbysiad Cychwynnol a'r amser perthnasol o 5 diwrnod sydd wedi'i ragnodi ar hyn o bryd.¹⁶⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

177. Roedd y Gweinidog yn cwestiynu a yw adran 3, fel y'i drafftaiwyd, yn ystyried y ddau lwybr tuag at sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu 2000, h.y. gwasanaethau rheoli adeiladu mewn awdurdodau lleol ac Arolygwyr Cymeradwy yn y sector breifat. Yn ogystal, roedd yn cwestiynu'r rhesymeg dros drin y graddfeydd amser ar gyfer diffyg cydymffurfio yn wahanol i ddarpariaeth adran 16 o'r Ddeddf Adeiladu.¹⁶¹ Yn olaf, dywedodd y Gweinidog:

“It would appear to be more appropriate, from a practical point of view, if section 3 of the Measure was integrated within the equivalent provisions of the Building Regulations. Provision of information could be addressed as part of further regulation under section 6(1) of the Measure.”¹⁶²

¹⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS17

¹⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

¹⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

178. Ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol, dywedodd Mr Bush bod y materion a nodwyd gan NHBC a'r Gweinidog mewn perthynas ag adran 3 yn codi materion technegol tebyg i'r rhai a godwyd mewn perthynas â gorfodi (gweler adran 2 uchod). Esboniodd na chafwyd ymgynghoriad cyn y broses ddeddfu yn achos y Mesur arfaethedig hwn, felly ni chafodd nifer o'r materion technegol o ran y drafftio eu canfod cyn cyflwyno'r Mesur. Esboniodd Mr Bush ymhellach bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn drwy gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2.¹⁶³

Ein barn

179. Rydym yn deall ac yn derbyn y rhesymeg y tu ôl i ddarpariaeth cyfnod 3. Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r pryder a godwyd yn y dystiolaeth nad yw adran 3, fel y'i drafftiwyd, yn adlewyrchiad cywir o'r trefniadau presennol mewn perthynas â rheoli adeiladu, gan nad yw'n ystyried rheoli adeiladu a wneir gan Arolygwyr Cymeradwy yn y sector preifat. O ystyried hyn, **rydym yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2 i wneud yn glir mai ei bwriad yw bod adran 3 yr un mor berthnasol i wasanaethau Rheoli Adeiladu mewn awdurdodau lleol a Rheoli Adeiladu a wneir gan Arolygwyr Cymeradwy yn y sector breifat. Rydym hefyd yn argymhell bod y graddfeydd amser ar gyfer diffyg cydymffurfio a ddarperir ar eu cyfer yn adran 3 yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd yn achos Rheoliadau Adeiladu 2000.**

Adran 4 – Dehongli

Preswylfa

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

180. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai fod rhywfaint o ddryswch ynghylch ystyr y term 'preswylfa'. Yn fwy penodol, ceisiwyd eglurhad ynghylch a yw'r term 'tŷ annedd' yn cynnwys carafanau, cychod preswyl a strwythurau eraill nad ydynt yn adeiladau

¹⁶³ Y Cofnod, para 100, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

ond a ddefnyddir yn llwyr fel annedd parhaol, ac anheddau/bythynnod gwyliau.¹⁶⁴

181. Pwysleisiodd NFSN a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fod angen cysondeb yn y derminoleg er mwyn osgoi dryswch. Nodwyd ganddynt fod y term ‘annedd domestig’ yn cael ei dderbyn yn ehangach yn y diwydiant tân na ‘preswylfa’.¹⁶⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

182. Awgrymodd y Gweinidog efallai bod angen ymhelaethu mwy ar y term ‘cartref gofal preswyl’ a theimlai y gallai Tabl D1 (o Ddogfen Gymeradwy Rhan B o’r Rheoliadau Adeiladu) fod yn sail ddefnyddiol i hyn.¹⁶⁶

System llethu tân awtomatig

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad

183. Nid oes darpariaeth ar gyfer diffiniad o ‘system llethu tân awtomatig’ yn y Mesur arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd wedi ystyried diffinio systemau llethu tân yn gwneud hynny yng nghyd-destun y safonau y dylent eu bodloni, sef Safon Brydeinig BS:9251.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy’n gyfrifol

184. Ar ran yr Aelod sy’n gyfrifol, dywedodd Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, na fyddai carafanau symudol na chychod preswyl yn cael eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig oherwydd ni all y Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â safonau sy’n ymwneud â cherbydau neu gychod. Er y byddai chalets gwyliau yn cael eu cynnwys, nid oes eglurder llwyr o ran carafanau sefydlog.¹⁶⁷ Esboniodd:

“The range of different kinds of structures that could or could not be regarded as being a dwelling house may be difficult to define definitely on the face of the proposed Measure.”¹⁶⁸

¹⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS20

¹⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS16, DFS8

¹⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS25

¹⁶⁷ Y Cofnod, para 117, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹⁶⁸ Y Cofnod, para 117, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

185. Aeth Mr Bush ymlaen i ddweud bod y Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i'r Gweinidog i newid y diffiniad o 'preswylfa' drwy Orchymyn.

186. Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol nad oedd yn briodol cynnwys diffiniad o 'system llethu tân awtomatig' yn y Mesur arfaethedig gan y byddai'n rhy ragnodol a byddai'n rhaid ei ddiwygio dro ar ôl tro, gan fod safonau'n newid.

Ein barn

187. Rydym yn croesawu'r eglurhad a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol mewn perthynas â'r term 'tŷ annedd'.

188. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas â'r term 'cartref gofal preswyl'. Yn ogystal, rydym yn nodi bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fyddai carafanau sefydlog yn ddarostyngedig i ddyletswydd adran 1. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig, fel y'i drafftwyd, yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru i ddiwygio diffiniad 'preswylfa' drwy Orchymyn os bydd angen. **Rydym yn fodlon, felly, ar y diffiniad o 'preswylfa' a ddarperir ar ei gyfer yn adran 4.**

189. Rydym yn derbyn y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 1(4)(c) yn darparu'r sail ar gyfer ystyr 'system llethu tân awtomatig' i'r graddau y byddant yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i systemau llethu tân gydymffurfio â hwy. Gan hynny, rydym yn fodlon na chaiff y term 'system llethu tân awtomatig' ei ddiffinio ar wyneb y Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu pam fod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi dewis peidio â defnyddio'r term hwn yn nheitl byr y Mesur arfaethedig. **Rydym yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ystyried newid y teitl byr i gynnwys cyfeiriad at systemau llethu tân awtomatig, er eglurder.**

Adran 6 – Rheoliadau a gorchmynion

Cefndir

190. Mae adran 6(1)(d) yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau i roi grym i fwriad polisi y Mesur arfaethedig.

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

191. Roedd y rhai a roddodd sylwadau ar y gofyniad i ymgynghori yn fodlon ag ef. Mynegodd Dŵr Cymru ddymuniad penodol i gael ei ymgynghori ar faterion sy'n ymwneud ag adrannau 1(4)(c) a 3(2)(b), h.y. y gofynion y mae'n rhaid i systemau gydymffurfio â hwy a gwybodaeth er mwyn dangos y gall gwaith adeiladu fodloni'r gofynion hynny.¹⁶⁹

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

192. Ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol, dywedodd Joanest Jackson, Cyngorydd Cyfreithiol:

“The proposed Measure, as drafted, contains a specific requirement to consult prior to making regulations. It confers a fairly generous discretion on the Ministers as to who is consulted...should the committee's view be that specific stakeholders should be identified on the face of the proposed Measure, Ann will give consideration to that and it can be easily dealt with at Stage 2.”¹⁷⁰

Ein barn

193. Rydym yn nodi bod y rhai a roddodd sylwadau yn fodlon â'r gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau i roi grym i fwriad polisi y Mesur arfaethedig. Gan hynny, **rydym yn fodlon â gofyniad i ymgynghori a ddarperir yn adran 6(1)(d).**

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS20

¹⁷⁰ Y Cofnod, para 92, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

7. Materion eraill

Effaith gronnus rheoleiddio

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

194. Mynegwyd pryder gan y diwydiant adeiladu tai ynghylch effaith andwyol posibl y Mesur arfaethedig ar hyfywedd datblygu. Awgrymwyd y gallai'r Mesur arfaethedig—ynghyd â gofynion rheoliadol presennol mewn perthynas â chynllunio, tai fforddiadwy a datblygu cynaliadwy—beryglu hyfywedd datblygu tai yng Nghymru.

195. Os bydd y baich rheoleiddio yng Nghymru yn fwy na mewn rhannau eraill o'r DU, awgrymodd NHBC bod risg wirioneddol y byddai datblygwyr yn llai tebygol o barhau i ddatblygu tai yng Nghymru.¹⁷¹

196. Ar bwynt tebyg, dywedodd Redrow Homes Ltd:

“...the cost of introducing the Measure has been considered in isolation from other growing regulatory demands and is reliant on estimates and assumed, but un-defined trade-offs. This lack of real cost data and resulting uncertainties raise further concerns over the future viability of development against a background of cumulative regulatory impact, and this in turn may impact upon volume delivery of new homes in Wales and the associated privately funded contributions through the planning process.”¹⁷²

197. Yn yr un modd, pwysleisiodd Bovis Homes Group PLC:

“As an industry, we are facing unprecedented demands and impacts on viability from a range of regulatory requirements. This measure will further add to such regulatory burden and this is likely to limit the supply of new sites coming forward and thus the delivery of affordable homes, given the significant policy and legislative requirements already in place.”¹⁷³

¹⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS17

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS19

¹⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15

198. Codwyd materion tebyg gan HBF, Llanmoor Homes ac Anwyl Construction Co Ltd.¹⁷⁴

Tystiolaeth gan y Gweinidog

199. Awgrymodd y Gweinidog:

“those whose interests operate in a lowest-common denominator threshold will always want the least amount of regulation and the greatest parity of intention across the United Kingdom”.¹⁷⁵

200. Aeth ymlaen i ddweud:

“...it is difficult to generalise in this context, because the housing markets respond to a range of factors, of which the cost of provision is only one; those factors are normally a combination of land availability and value, construction costs, the availability of planning permission and individual cash flow requirements.”¹⁷⁶

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

201. Pwysleisiodd yr Aelod sy'n gyfrifol bod datganoli yn galluogi Cymru i wneud penderfyniadau polisi i rannau eraill o'r DU. Dadleuai'n gryf mai bwriad y Mesur arfaethedig yw gwneud tai yng Nghymru yn fwy deniadol ac yn fwy diogel.¹⁷⁷

202. Ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol, dywedodd Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Stafford:

“...there is no evidence to suggest that [the requirement to install automatic for suppression systems] slows down the building [of new houses] and that people do not build as a result. In fact, evidence is to the contrary. International evidence supports that it has not slowed down development.”¹⁷⁸

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS23, DFS23a, DFS24b

¹⁷⁵ Y Cofnod, para 210, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹⁷⁶ Ibid.

¹⁷⁷ Y Cofnod, para 167, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

¹⁷⁸ Y Cofnod, para 172, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

Ein barn

203. Nodwn y pryderon a godwyd gan y diwydiant adeiladu tai ac eraill ynghylch effaith andwyol posibl y Mesur arfaethedig ar hyfywedd datblygu tai. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod datblygiad tai, ar y cyfan, yn cael ei sbarduno gan gyflwr y farchnad. **Wrth ystyried effaith y Mesur arfaethedig ar sail yr amcangyfrifon cost a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol, rydym yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y Mesur arfaethedig yn cael effaith andwyol ar hyfywedd datblygu yng Nghymru.** Gan hynny, ac o gofio i ni ganfod ei bod yn debygol fod y costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel, **rydym yn credu y byddai'n ddoeth i'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i'r mater hwn cyn gwneud rheoliadau i roi grym i fwriad polisi'r ddeddfwriaeth hon.**

Effaith bosibl ar yr agenda tai fforddiadwy

Tystiolaeth gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad

204. Yn gysylltiedig ag effaith cronus rheoleiddio, codwyd pryder gan nifer o ymatebwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant adeiladu tai, Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru, y gallai'r Mesur arfaethedig gael effaith negyddol ar yr agenda tai fforddiadwy.¹⁷⁹

205. Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Tai Wales and West y byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried addasu'r Canllawiau Costau Derbyniol er mwyn ystyried y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â bodloni dyletswydd adran 1.¹⁸⁰ Yn ogystal, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

“This measure will essentially result in extra costs at construction for housing associations, as well as the pressure on being able to charge affordable rents (due to additional servicing) and several other considerations. Therefore, it is important that the Assembly Government is flexible in its approach towards affordable housing

¹⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS10, DFS22, DFS11, DFS15, DFS23, DFS23a, DFS23b

¹⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS22, DFS11

in these circumstances. Savings may have to be made elsewhere so that the overall approach could in the end be cost neutral.”¹⁸¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

206. Cydnabu'r Gweinidog y bydd y Mesur arfaethedig yn golygu y bydd ychydig llai o gartrefi, efallai, yn cael eu hadeiladu am yr un faint o arian.¹⁸² Aeth ymlaen i awgrymu y byddai hyn yn ystyriaeth bwysig mewn asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer tai fforddiadwy.¹⁸³

207. Fodd bynnag, aeth y Gweinidog ymlaen i esbonio nad oedd yn credu bod effaith bosibl y Mesur arfaethedig ar yr agenda tai fforddiadwy yn faes sy'n peri pryder.¹⁸⁴

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

208. Pwysleisiwyd tystiolaeth y Gweinidog gan yr Aelod sy'n gyfrifol, a dywedodd ei bod yn falch nad oedd y Gweinidog yn credu y byddai'r Mesur arfaethedig yn effeithio ar niferoedd tai fforddiadwy mewn unrhyw fodd.¹⁸⁵

209. Aeth ymlaen i esbonio ei bod yn ddigon bodlon na fydd y Mesur arfaethedig yn cael effaith negyddol ar adeiladu tai cymdeithasol, ond y bydd yn arwain at fanteision a llawer mwy o ganlyniadau cadarnhaol.¹⁸⁶

Ein barn

210. Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth ynghylch effaith bosibl y Mesur arfaethedig ar yr agenda tai fforddiadwy. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn gyffredinol bod datblygu tai fforddiadwy yng Nghymru yn dibynnu yn rhannol ar angen lleol ac yn rhannol ar y flaenoriaeth a roddir iddo gan Lywodraeth Cymru. O ystyried hyn, **rydym yn fodlon ei bod yn annhebygol y bydd y Mesur arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y gallu i gyflawni'r agenda tai fforddiadwy yng Nghymru.**

¹⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS22

¹⁸² Y Cofnod, para 212, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹⁸³ Ibid.

¹⁸⁴ Y Cofnod, para 214, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 23 Medi 2010

¹⁸⁵ Y Cofnod, para 178, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

¹⁸⁶ Y Cofnod, para 179, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Hydref 2010

8. Adroddiadau gan Bwyllgorau eraill

Is-ddeddfwriaeth

211. Ystyriwyd y Mesur arfaethedig gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn ei gyfarfod ar 6 Hydref 2010, pan drafododd dystiolaeth ysgrifenedig gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 3 Tachwedd, a gellir cael copi ohono yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-legislation-dissolved/bus-committees-third-sleg-home/bus-committees-third-sleg-current_inquiries.htm

Materion ariannol / adnoddau

212. Cymerodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol ar 14 Hydref 2010 am y wybodaeth ariannol a gynhwysir yn y Memorandwm Esboniadol. Mae disgwyl i'r Pwyllgor Cyllid ar y Mesur arfaethedig maes o law. Pan gaiff ei gyhoeddi, bydd copi o'r adroddiad ar gael yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-fin-home.htm>

Rhestr o'r tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau llafar yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-third-lc1-agendas.htm>

23 Medi 2010

Ann Jones AC

Chris Enness

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Stafford (Ymgynghorydd Technegol i'r Aelod sy'n gyfrifol)

Jane Davidson AC

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

David Hedges

Cartrefi Cymunedol Cymru

30 Medi 2010

Colin Hanks

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Paul Bates

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Andy Marles

Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Richard Price

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi - Cymru

7 Hydref 2010

Keith Pratley

Ymgynghorydd - Dŵr Cymru

Mike Davis

Dŵr Cymru

Ronnie King OBE

Y Rhwydwaith Chwistrellu Tân Cenedlaethol

Syr George Pigot

Y Rhwydwaith Chwistrellu Tân Cenedlaethol

14 Hydref 2010

Ann Jones AC

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

Chris Enness

Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Stafford (Ymgynghorydd Technegol i'r Aelod sy'n gyfrifol)

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-domfiresafety/lc1-domesticfiresafety-consultationresponses.htm>

<i>Enw</i>	<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Mary Sinclair		DFS1
Mike Brain		DFS2
John E Jones		DFS3
	SOVA (Supporting Others through Volunteer Action)	DFS4
Celia Lewis		DFS5
	Dee Valley Water	DFS6
Cyril Highman		DFS7
	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	DFS8
	Cymdeithas Prif Swyddogion Tân	DFS9
	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	DFS10
	Staff Cymdeithas Tai Wales & West	DFS11
	Cymdeithas Prif Swyddogion Tân (Cymru)	DFS12
	Atal Tân Cymru	DFS13

	Cymdeithas Diogelwch Tân Arbenigol (ASFP)	DFS14
	Bovis Homes Group PLC	DFS15
	Rhwydwaith Cenedlaethol Chwistrellau Tân	DFS16
	Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC)	DFS17
	Persimmon Homes Gorllewin Cymru	DFS18
	Redrow Homes Ltd	DFS19
	Dŵr Cymru	DFS20
	Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI)	DFS21
	Cartrefi Cymunedol Cymru	DFS22
	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	DFS23
	Llanmoor Homes	DFS23A
	Anwyl Construction Co Ltd	DFS23B
	Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Cymru	DFS24
Jane Davidson AC	Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	DFS25